yn fychan, yn fwy, yn llai, eraill ynghylch *cyffelybu*, yn gymmaint, yn ogyfuwch. Rhai ynghylch *Anorphen*, megys, yn agos, yn ymyl, ymronn. Rhai megys yn *dangos*, fef. Wele, nychaf, yn llynn, fe lly, eraill yn *eglurhau* megys. fef, fel, mal, malpei, nid amgen. Rhai yn *petruſo*, megis yſgatfydd, nid hwyrach. Rhai ynghylch *anturiaeth*, o ddamwain, ond antur, o antur, ac eraill y fydd o *debygoliaeth* fel y mae, telly, yn unwedd, megys, mal, yn yr un modd:

Ynghylch Cyfranniad.

Beth yw *Cyfranniad*, Rhan ar Jaith a gymmer rann gan henw, a rhann gan *Ferf*, gan henw y cymmer Genedl, ac achos gan *Ferf* y cymmer amſer a *Synwyr*, gan bob un o honynt y cymmer Rhif a Ffugr.

Chwe pheth a ddamweinia ar gyfranniad: nid amgen: *Cenedl, achos, Amſer, Synnwyr, Rhif a ffugr.* Tair cenedl ſydd i gyfranniad, fel i henw gwan, Chwech achos ſydd i gyfranniad fel i henw: tri amſer Cyfranniad y ſydd: Cynhyrchiol fel y mae yn *caru*: perffaith fel y mae o *garu*: Dyfodedig fel y mae *i garu*. Tri rhyw Synnwyr ſydd i gyfranniad, fel y mae tair *Cenedl* i Ferf. canys gan Ferf wneuthuredig y daw dau barth: nid amgen, *cynnhyrchiol a dyfodedig*, O Ferf ddi-o idefedig y daw dau barth: nid amgen, perffaith fel y mae *gwedi, caru*, Cynhyrchiol fal y mae *yn caru*. O Ferf Canolig y daw dau Gyfranniad fal y mae ei henw gwann, nid amgen: Unig a lliofawg Dyfodedig y ſydd i Gyfranniad: Un rhannedig fel y mae yn *caru*. Un gyfanſoddedig fel y mae yn *cadgaru*.

Pa ffurf yr adnabyddir *Cyfranniad*, yr amſer *Cynhyrchiol*, pan fo *yn*, yn dyfod o flaen Arwydd Berf anherfynnedig, *yr*, *yn*, ar Ferf anherfynedig a fydd un Gair, ar Gair hwnnw a fydd Cyfr-

iad o amſer Cynnhyrchiol, ſel y mae, yn *caru, yn canu, yn tyfu*. Cyfranniad o amſer perffaith, wrth i Synwyr, ai derfyn yr adnabyddir, canys megys henw gwann fydd y dychweliad: Ac o Ferf y daw, a therfynu a wna yn ddiau ſel y mae *Caredig, dyſgedig*. Cyfranniad dyfodedig, gwneuthuredig a adnabyddir pan fo y yn dyfod ar ol Berf atreolus, a c o flaen Berf annherfynedig yr y, ar Ferf annherfynnedig a fydd Cyfranniad o amſer canlynol gwneuthuredig, fel y mae *y caru, y ſaethu, y canu*. Cyfranniad Ddyfodedig, dioddefedig a adnabyddir pan fo, *ym* yn ddioddefedig yn dyfod yn ol Berf afreolus, ac o flaen arwydd Berf annherfynedig: Ar Ferf afreolus yn arwyddoccau gwneuthur y Cyfranniad Dioddefedig, yr *ym*, ac arwydd y Ferf anherfynnedig a fyddant un Gair, Ar gair fydd Cyfranniad o amſer Dyfodedig, o Ferf ddioddefedig fel y mae, *yr wyf fi yn caru*; gwybydd fod y cyfranniad yn ddioddefedig ac yn amſer Dyfodedig, Parth fathredig, y ddaw pan ddel y neu o ar ô. Berf a arwyddoccao fymmudo fel y mae *cerddaf*. Ac o flaen arwydd Berf annherfynedig yr y neu yr o, Ac arwydd y Ferf annherfynedig a fyddant un Gair, ar Gair hwnnw fydd parth fathredig, fel y mae: *mi af i garu: mi a ddof o garu*. Henwau parchedig a fydd pan fo arwydd Berf annherfynedig yn myned mewn grym henw ag arwydd *Genedio*: fel y mae *or caru, yr caru*. Ac yn *Achuſiaid, Apliaid*, fel y mae *yn caru*.

Ynghylch Cyſſylltiad.

BEth yw Cyffyllltiad, Rhann ar Jaith a arwyddoccao cyſſylltu neu wahanu rhwng rhannau eraill: hi a gyſſyllta leoedd, Ac a wahana Synhwyrau.

Tri pheth a ddamweinia ar Gyſſylltiad: nid amgen *Gallu, Dull, a Threfn*.

Fum

Pum Gallu y ſydd i Gyſſylltiad. Un yw cyſſylltu neu glymmu, fel y mae *Gwr a Gwraig*, neu *mi a thi*, neu *ddyn ar llall*. Yr ail yw gwahanu, fel y mae *mi*, neu *di*, neu *arall*. Y Trydydd a berthyn, neu a gyflawna ymadrodd, fal y mae *nid, amgen*, neu *Er hynny*: neu *ſef, yw hynny*. Y pedwerydd a ſydd Achoſawl fel y mae, *O daw ef minnau a ddeuaf: pan ddel ef, minnau a ddeuaf, oni ddaw ef, ni ddeuaf finnau. mi a drawaf y gwr.* Canys ei am trawodd i, neu fel hynn hefyd, *os, o, onid, onis, oni, onith, ai, achos paham, ar achos paham*, Ond *na, na's, nai*. O achos rhwng, a phan fo, *am ba beth*, yn enwedig hefyd, ac hefyd *yntau? o ddiethr*, neu *oddigerth*, dros benn. Y pummed gallu y ſydd Reſymawl fel ŷ mae, *o daw ef, paham na ddaw yntau? paham y llas y gwr*, Am iddaw i haeddu: Neu fal hynn yma hefyd. *Oblegid* ac oblegid, yn wir, or achos, *paham, yn wir or achos*. Or plegid, am hynny, hyma henwau y pum gallu ſydd i Gyſſylltiad, fel y dywedpwyd uchod. *Cyſſylltu, gwahanu, cyſtawni, Achoſio, a Rheſymoli*. Dwy ffugr y ſydd i Gyſſylldiad: Un Rhannedig fel y mae *am hynn*: Ac un gyfanſoddedig fel y mae, *am hynny*. Tri Threfn neu dri *Urddas* y ſydd i Gyſſylltiad: Y cyntaf yw *Rhagflaenu* Geiriau yn eu cyſſylltu fel y mae, *ac, ar, ath*. Yr ail yw Canlyn y Geiriau y boant yn eu rhwymo, fel y mae *Nê, neu, y naill, am, an*, y trydydd yw rhagflaenu a chanlyn yn gyffredin y Geiriau, fal y mae *o achos, oblegid, o gâs: o herwydd, os bydd, o bydd, oni bydd*.

Beth yw Arddodiad, Rhann o Ymadrodd yr hwn a roddir o flaen Ymadroddion eraill: ac a gyflawnhao neu a newidio, neu a lefhao arddangos ymadroddion eraill; Un peth a ddangoſant arddodiad, nid amgen, *Achos*: Pa fawl achos y ſydd mewn Arddodiad. Dau nid amgen, *Achuſiaid*. ac

Ap-

Apliaid. Deg ar hugain a wasanaetha i *Achusiaid*, nid amgen, *Ymyl y tŷ, at y tŷ, gar bronn y Tŷ, o flaen y Tŷ, gyfar vyneb ar Tŷ, y tu yma i'r Tŷ, ar gyfair y Tŷ, o gylch y Tŷ, neu o bob parth y Tŷ O gylchion y Tŷ, Unwedd ar Tŷ, yn y Tŷ, allan o'r tŷ, ymhlith y Tai, Gerllaw y tŷ, ymlaen y Tŷ, Uwch ben y Tŷ, tan gyfflys y tŷ, dros y Tŷ, heb Wr y Tŷ, erbyn yr Wyl, Am y pared, hyd Duwsul, O. ddieithr y Ddinas, Is gil y ddôr, o fewn y Tŷ, rhwng y Tai, ynghylch y tŷ, Oblegid yr eisteddfod.* Deg ar hugain *Arddodiad* a ddaw o *Apliaid.* Nid amgen *yn ol y Gwr, o flaen i'r Gwr, or tu hwynt ir Gwr: wrth ymyl yffordd, or tu ymma ir gwr, wrth ystlys y gwr, neu wrth, neu oddiwrth* bob peth ar a fo a henw Cadarn arno neu Rag henw, *or tu draw ir gwr, or tu ol ir March, or tu blaen ir cŵn o'r tu cefn ir gwr; or tu bronn ir gwr. neu gar bron y gwr, gar bron y Tysiion; o'r Ffair, o'r Farchnad, yn ddirgel, yn amlwg, yn gyhuddedig o gi fiaunde, rhag ofn, heb drafael, o ni Tŷ,* gyda glann yr afon, Dy Farch, o flaen *pawb*: yr, od, cyn.

Pedwar Arddodiad a ŵasanaetha weithiau i *Achusiaid:* Ac weithiau eraill i *Apliaid*, nid amgen (yn) fel y mae *yn y Tŷ.* Yr fel y mae *yr Coed*, dan fel y mae *dan y tŷ*, (ar) fel y mae eisteddar *y Stôl*: Yna y perthyn *ar i Achusiaid*: Canys cyfwrdd ar peth y mae; A phan fo heb gyfwrdd fel y mae, *mi âf ar eich neges chwi.* Yna y perthyn i *Apliaid.* Llyma hwynt oll, *yn, yr, dan, ar,* Rhai or Arddodiad sydd yn mynnu *Achusiaid* ar eu hôl: nid amgen, na'r rhain, (yr) fal dywedyd yr Tŷ, Cynn, fal dywedyd, *cynn yr wyl*: Ac wrth hynny dealler eraill: Llyma y rhai ni ellir i Cyffylldu gyda Geiriau eraill. nid amgen; Gyferbyn, garbronn.

Y

Y mae hefyd Rann a'r Jaith a elwir Cyfryngdod neu Daflodiad.

BETH yw Taflodiad, Rhann ar Jaith a arwyddoccao deheurwydd meddwl, dan lef gyhuddedig: Un peth a ddamweinia ar *Daflodiad*, nid amgen, arddangos ei hun, Pedwar rhyw Arddangos y fydd i *Daflodiad*, Canys rhai o'r taflodiadau a arwyddoccânt Lawenydd, fel y mae *wi*, Neu, Gwynn fy myd. Rhai a arwyddoccânt *ddolur* neu *driſtyd* fel y mae *Och neu gwae fi*, rhai a arwyddoccant *Ofn*, fel y mae *At*, *a.d.* Rhai a arwyddoccânt *Rybudd*, fel y mae *how*, Rhai a arwyddoccânt *Annog* fel y mae *bŷs*, Ac od oes mwy dealler wrth hynny y cyffelyb.

Pa Rannau or Ymadroddion a ellir eu rhoddi fegys Taflodiad, Henw gwann ei hun fal y mae, *Drwg*: A rhyw amſer Rhag Henw a henw gwan fel y mae *myfi druan*. Weithiau eraill Rheiwm cyfan fal y mae *O Arglwydd da*, neu *Jeſu dy drugaredd.*

Llymma ffordd a ddyfg ddychwelyd neu dreiglaw Geiriau fal y galler gwybod pa gâs: pa berſon, pa fodd: A pha amſer a ddoder yn yr Ymmadrodd. Wrth i wneuthur yn ddyledus ac yn gyfiawn, nid amgen, o dyſt i dreiglaw Ymmadroddion yn berffaith, fel y mae hynn, yr Ferf Caraf: Cery, cerais, carai, or caru, yr caru: at y Caru, o garu, I garu, yn caru.

Yn berthynas i gydnabod y pum amſer, yn eu hamryw foddion.

CAraf, *i*, carwn i, carawdd ef, carit ti, carei ef, carem ni, *carech chwi*, *carwyf i*, *ceri di*, *cerwch chwi*, *cerym ni*, *cerynt hwy*, *cerais i*, *ceraiſt ti*, *ceryſ di*, *ceryſ chwi*, *cerir fi*, *cerid ti.*

Pum

Pum Amſer ſydd.

Amſer

Cyndrychiol
Cynhyrchiol
neu Cydrychiol — ſydd yr awrhon,

amherffaith, — aeth ymaith yngwbl
Perffaith, — aeth ymaith er'ſtalm
mwy na — aeth ymaith er yſtalm a chyn perffaith.
pherphaith — *ſy'n dyfod rhagllaw.*
dyfodadwy, neu, — *ſef a ddel rhagllaw.*
Dilynawl,

yr Rhan

Dau Nifer neu Rif ſydd, ſef Unic a Lliofog.

Yn Gadarn Weithredol, megys, *wyf, wyt, yw.*
Yn Ddioddefedig, *bydd af, byddi bydd. ydys, ys, byddir.*
Yn wann weithredol, megys, *caraf, ceri, câr.*

Mewn amgylchiaith fel, *wyf, wyt, yw yn caru.* mewn ſymlrwydd megys, *ef am cerir, a'th gerir, ae cerir, &c.*

Yngbylch Perſonoliaeth.

A thri Rhyw ſydd. ſef,

Yn gynta' — *Unigol, caraf carwn cerais.* / *Lliofog, carwn carem caroſſem,* / Yr hon a 'madroddo ami hunan.
Yn Ail, — *Unigol, ceri, cerid, ceraiſt,* / *Lliofog cerwch, carech, caraſoch* / A Ymadroddo wrth arall.
Yn Dry dydd. — *Unigol, câr, carai, carawdd,* / *Lliofog carant, carent, caraſant* / A ymadroddo o arall.

Pum amſer a ddaw o Fynagedig ſodd nid amgen, *Cynnhyrchiol, Amherffaith, Perffaith, Mwy na pherffaith, a Dyfodedig. Cynhyrchiol,* ſel y mae *caraf, ceri, caref,* ac yn Lliofawg, *Carwn, cerwch carant.* Ammherffaith amſer, *Carwn, caryd, carai* acyn Lliofawg, *Ceryn, cerych, cerynt.* Perffaith amſer, *Cerais, ceraiſt, carodd,* ac yn lliofawg, *caroſom,*

taraſom, caraſoch, caraſant: Mwy na pherffaith amſer, *caraſwn, caraſud caraſai*; Ac yn *L*lioſawg *Careſyn, careſſych, careſſynt.*

Amſer Dyſodedig, *Cerych, caro ef*; ac yn Llioſawg, *Carom: carech, caront hwy rhagllaw.*

Dau amſer a ddaw o Ferf Orchymmynedig, Cyndrychiol, *car di, cared ef.* Ac yn Llioſog, *carwn ni, cerwch chwi, caront hwy.* Yn gydrychiol yr awr honn, Dyſodedig y mae *cardi rhagllaw. cared ef.* Ac yn Llioſawg, *carwn ni, cerwch chwi, caront hwy rhagllaw*. Ni ellir gorchymmyn eithr mewn dau Amſer, ac mewn dwy Berſon.

Tri amſer a ddaw o Ddamunedig ſodd: Cynhyrchiol amſer, *Ef a allai y caraf yr awrhonn, y ceri, y caref*, Ac yn Llioſawg, ef a allai y *carwn, y cerwch, y caraut hwy.* Mwy na pherffaith. *ef a allai y caraſwn, y caraſid, y caraſai*; ac yn Llioſawg ef a allai y *careſym, y careſych, y careſynt*, Dyſodedig Amſer, ef a allai y *carwn rhacllaw, y carid y carai*, Ac yn Llioſawg ef a allai y *cerym. y cerych, y cerynt hwy rhagllaw.*

Pum amſer a ddaw o Ferf Gyſſylltiedig, nid amgen, Cynnhyrchiol, ſef y mae *o charaf, o cheri, o char ef*: ac yn *L*lioſog *o charwn, o cherwch, o charant*. Perffaith amſer, *o cherais, o cheraiſt o charodd ef*; ac yn Llioſawg. *o caraſom, o caraſoch, o caraſant*. Ammherffaith Amſer, *o charwn, o charid o charai*. Ac yn Llioſawg, *O cherym o cherych o cherynt*. Mwy na pherffaith amſer, *o caraſwn, o caraſid o caraſai*; Ac yn Llioſawg *O careſym, o careſych o careſid*. Amſer Dyſodedig, *o caraf rhacllaw, o ceri, o car ef*, ac yn Llioſawg, *O carwn, o cherwch, o carant*: neu fil hynn: pann garwyf, pan gerych, pan garo ef; Ac yn Llioſawg pann *garom, pann garech. pann Garont hwy*. Annherfynedig ſodd ni ellir cael i. ddaw, na Rhif na Pherſon. Ac am hynny y gel-

gelwir ef yn annherfynedig fodd fal y mae *Rhedeg, Saethu, Caru, Neidiaw: Nofiaw.*

Ffordd i ddyebwelyd y Berfau.

Weithian y dyfgwn ffordd i ddychwelyd Berf ddiodde fedig fel, yr ail Genedl or Berfau.

Pum Amfer a ddaw o Fynagedig Fôdd.

MYnagedig fodd, cynnhyrchiol amfer, *am cerir, ath Gerir a Gerir*, ac yn Llioſawg, *an cerir, a'ch cerir, au cerir.* Ammherffaith amfer, *am cerid; ath gerid, ai cerid*, ac yn Llioſog, *ai cerid; a'th cerid: au cerid. Perffaith amfer amcarwyd, ath Garwyd, a Garwyd*, Ac yn Llioſawg, *A'ncarwyd, a'ch carwyd, au carwyd.* Mwy na pherffaith amfer, *am careſid, ath Careſid, a Careſid.* Ac yn Llioſawg, *a'n careſid, ach careſid, au careſid.* Amfer Dyfodedig. *Am cerir, a'th Gerir, a Gerir.* Ac yn Llioſawg, *a'n cerir, a'ch cerir, au cerir.*

Modd Gorchymynnedig o Ferf ddioddefedig: Ni ellir i gael, eithr drwy roddi y Ferf Ganolig afreolus fel y mae *wyf, wyd, yw*, yn y modd Gorchymynnedig, A chyfranniad o Ferf ddioddefedig o amfer perffaith ar i hol fel y mae, *bydd garedig, bydded garedig*, Ac yn Llioſawg *byddwn Gared g, byddwch garedig*, byddant *garedig*, Amfer Dyfodedig, *byddych garedig*, bydd *garedig.* Ac yn Llioſawg, *byddom garedig, byddoch garedig, byddont garedig*,

Modd Damunedig, cydrychiol amfer, *ef a allai ym cerir, i'th gerir, i cerir.* Ac yn Llioſog, *ef a allai i'n cerir, i'ch cerir, eu cerir.* Mwy na pherffaith amfer, *Ef a allai ym careſyd, i'th careſid, y careſid.* Ac yn Llioſawg, ef a allei i'n *careſid, i'ch careſid, au careſid*, Dyfodedig amfer *ef allei ym cerir, i'th gerir, y cerir ef*, ac yn

Llioſawg

Lliosawg, ef a allai i'n cerir, *i'ch cerir*, y cerir hwynt, Ammherffaith Amser, e'm cerid, i'th cerid, y cerid: ac yn lliosawg: ein cerid, eich cerid, y cerid.

Modd cyssylltedig cynnyrchiol amser, o'm cerir, o'th gerir, o cherir, ac yn Lliosawg o'n cerir, o'ch cerir, ou cerir. Amherffaith amser: O'm cerid, o'th gerid, o cherid, Ac yn Lliosawg o'n cerid: o'ch cerid: ou cherid. Perffaith Amser *o'm carwyd, o'th garwyd, o charwyd ef.* Ac yn Lliosawg: o'n carwyd, o'ch carwyd: o charwyd hwynt. Mwy na pherffaith amser: o'm caresid, o'th garesid: o charesid et: Ac yn Lliosawg o'n *caresid, och caresid, o charesid hwynt,*

Dyfodedig Amser pan im *carer, pann i'th carer, pon ei carer,* ac yn Lliosawg pann i'n carer, pann i'th carer, pan eu carer hwynt.

Modd annherfynnedig a fydd i Ferf ddioddefedig fal i'r wneuthuredig. Dau gyfranniad a ddaw o honi, Un yn amser perffaith fel y mae *Caredig*: A Dyfodedig fal y mae *Caru.*

Llyma bellach fel y dychwelir y Ferf ganolig afreolus, Y drydedd Genedl or Berfau.

Wyf, wyd, yw, bum, buost, bu, bod or bod, yr bod yn bod, ac i fod: o fod, i fod.

Modd Mynagedig Cynnhyrchiol amser, *Wyf, wyd: yw:* Ac yn Lliosawg, *ym: ywch: ynt.* Amherffaith amser, *byddwn, byddyd, byddai:* ac yn Lliosawg: *byddym: byddych: byddynt.* Perffaith Amser *bum, buost, bu;* Ac yn Lliosawg, *buom, buoch: buont.* Mwy na pherffaith amser, *buaswn: buasid: buasei.* ac yn Lliosawg, *buessym, buessych, buessynt.* Dyfodedig amser, *byddaf: byddi: bydd ef,* Ac yn Lliosawg *byddwn, byddwch, byddant hwy rhagllaw.*

Modd

Modd Gorchymmynedig Cynhyrchiol amſer, *bydd. bed*, ac yn Lliofawg: *byddwn: byddwch, byddont*: Dyfodedig amſer, *bydd rhagllaw: bydded ef*: Ac yn lliofawg *byddwn, byddwch, byddont rhag llaw.*

Modd Damunedig: cynhyrchiol amſer: *ef a allai fy mod, dy fod, ei fod ef*, ac yn Lliofawg *ef a allai ein bod, eich bod, eu bod hwynt.* Mwy na pherffaith Amſer, *ef a allai y buaſwn, y buaſe, y buaſai, ef*; Ac yn Lliofog *ef a allai y bueſym, y bueſych, y bueſynt.* Ammherffaith amſer, *Ef a allai y byddwn, y byddid, y byddai*: Ac yn Lliofawg: *ef a allai y byddym, y byddych, y byddynt.* Dyfodedig amſer. *ef a allai y byddaf rhag llaw, y byddi, ŷ bydd ef.* Ac yn Lliofawg, *ef a allai y byddwn, y byddwch, y byddant hwy rhag llaw.*

Modd Cyffylltedig cynnhyrchiol amſer, *od wyf, od wyd: od yw*; Ac yn Lliofawg *od ym, od ych, od ynt hwy*, Ammherffaith Amſer: *o byddwn: o byddid, o byddai ef*, ac yn Lliofawg *o byddym, o byddych: o byddynt.* Perffaith amſer, *o buom, o buoſt, o bu*: Ac yn Lliofawg *o buom, o buoch: o buant*: Mwy na pherffaith amſer: *o buaſwn o buaſid, o buaſai*; Ac yn Lliofawg *o bueſſym: o bueſych: o bueſſynt. Dyfodedig amſer: o byddaf o byddi: o bydd ef.* Ac yn Lliofawg *o byddwn, o byddwch, o byddant hwy.* Neu pann *fwyf, pan fych, pan fo.* Ac yn Lliofawg *pan fo'm, pan fo'ch, pan fo'nt.*

Modd Annherfynedig fel y mae *bod*: a hwnnw a elwir i roddi gyd a phob amſer: henwau parthedig a ddo'nt or un Fert: nid amgen: *or bod, yr bod: at y bod: yn bod*, Dau barth iddi y ſydd: un o'r cynnhyrchiol fal y mae yn bod: Arall or Dyfodedig fel y mae i fod, Berfau diſgynnedig yw ŷ rhai ni aller i dychwelyd mewn ewbl o Foddion: ac Amſerau fel y mae *Moes, moeſed,*

moeſed, Ac yn Lliolawg, *Moeſwn*, *Moeſwch*; *moeſant*.

Ymadredd neu Gyſtrawenu yw cyfanſoddiy geiriau i gyd yn weddus.

YMadrodd a ddechreuir o bedwar modd; weithiau y dechreuir drwy *Nomnadio* a Berf berſonawl. Pan ſo Ymadrodd yn arwyddoccau manegi peth, neu wneuthur fal y mae, *mi a wnaf Dŷ*. Weithiau y dechreuir drwy Fert amherſonawl pann ſo ymadrodd heb na Khif, na Pherſon, fal y mae *Darllain mewn Yſgolion*. Weithiau y dechreuir drwy ſogl. Pan ſo Ymadrodd yn arwyddoccau gaiwe ugaeth, fal y mae *Simwnt cân gywydd*. Weithiau y dechreuir drwy Apliaid rhydd. Pan ſo Ymadrodd rhydd heb Fert ynddo fel y mae, *a mi yn mynedd dros y Dynydd, Hŷdd a l dod*. Pann ddechreuer Ymadrodd drwy ſomnadio, a berf Berſonol: Y ſomnadio ar Fert berſonol a ddylaent ſod yn un Khif, ac yn un Berſon: Ac or *Nominadio* y dyger gechuau Ymadrodd, cyd cyſtrawenner yn Gymraeg y Fert yn gyntaf, fel y mae: *Yr wyf fy yn rhoddi, ac yn canbiadu fy Nhir am Tŷdy-nau*. berf, ŵneuthuredig yn gyffredin wedi y caffo *Nominadio* oi blaen, a fynn gael Achuſtain wedi hi, fel y mae, *mi a dreuliais Arian*. Berf Dioddefedig yn gyffredin a fynn gael Rhagdyddiad wedi hi, fel y mae, *mi a'm hanair: oth weithred ti, neu o weithred arall*. Berf amherſonol o herwydd y mae Berf annherfynedig. Ac a gyſtrawenir gyd ac Achuſtain, wedi hi, fal y mae, *Mi a chwenychwn weled fy nghariad*. Gwyhydd di mae y neb a ſeddianno ar y llall a fydd *Genedic* fal y mae, *llyma Lyfr Simwnt*. Ar neb y rhoder y peth iddaw a fydd Dadio. Ar neb y dyger oddiarno a fydd Apliaid fal y mae. *Mi a dynnaf dy*

gan oddiwrthit ti. Gair gwann a gair cadarn a ddylaent fod ynghyd yn un Achos yn un Genedl. Ac yn un Rhif, fal y mae, *hwn ſydd Fab da : hon ſydd Ferch dêg*, y rhain a ymgymharant. Pob parth rhywiawg: Pob parth ſathredig : A phob henw parthedig a tynnant un rhyw achos wedi hwynt, ac a tynno y Ferf y delont genthi, fal y mae *mi a garaf fy meiſtr*, Yr wyf fi *yn dariain Catwn, mi a af i ddarllain Catwn.*

Ynghylch Cyſtrawen.

BEllach rhaid yw gwybod gwahanu rhwng *Cyſtrawenau*, fel y galler Doſparthu rhyngthynt : Or Cyſtrawenau, rhai ſydd berffaith o Synnwyr. Ac o lêt ynghyd fal y mae *Jeuan a red*, rhai ſydd berffaith o Synnwyr. Ac amherffaith o lef, fel y mae ; *Pobl a redant.* Rhai y ſydd berffaith o lef ac nid perffaith o Synwyr, fel y mae *Pobl a rêl.* O'r Cyſtrawennau perffaith o Lêf ac o Synnwyr ynghyd. Rhai y ſydd gerddedig : Rhai y ſydd angherddedig. Rhai y ſydd ail gerddedig. Rhai y ſydd unweddedig : Gerddedig yw y Gyſtrawen y bo gweithred y Ferf yn myned o berſon i berſon arall ; Neu berſon yn dangos Dioddefaint gan berſon yn myned ym mherſon arall, fel y mae, *mi a ddarllennaf fy ngwers*, neu *fy ngwers a ddarllennir o'm gweithred i.* Angherddedig yw y gyſtrawenu ni bo gweithred y Ferf yn myned o Berſon i Berſon arall. Neu ni bo dioldefaint yn myned o berſon i berſon arall: fel y mae *Fy Nghydymmaith ſydd deg.*

Ail Gerddedig yw y Cyſtrawen y bo dau Ryw ddichwenedigaeth iddi, fel y mae: *Mi a attolygaf i ti, fil y bych di fynghydymaith*: Unweddedig yw y Gyſtrawen, y bo yr unrhyw Berſon yn gwneuthur, ac yn dioddef ei hun : fel y mae *Mi am caraf, ti a'th geri, yntau ai câr ei hun.*

Y Trawsnewidio ſyth a Cyſtrawennir yn gerdde-

dig

dig ynghyd ar Ferf Berſonol. Ar cam acho[s] i gyd ar berfau amherſonawl. Ar Achuſiaid g[yd] a'r Berfau Annherfynedig. Cam Achuſiaid yn aml gyd ar Berfau Perſonawl a chyda 'r Nominadio, a gyſtrawennir yn gerddedig: Cam achos yw pob achos. Eithr *Nomnadio*, a *Bogiaid*, Ar rhai hynny ſydd iawn achoſion.

Weithian rhaid yw gwybod gwahanu y Berfau fal y galler goſod pob un yn i chyfleu, o'r Berfau rhai y ſydd Berſonawl. Ac eraill amherſonawl. Pob Bert berſonawl a fynn Nominadio oe blaen, neu beth a oſoder yn lle Nominadio, fel y mae *Darllain ſydd dda*; pob Berf ammherſonawl a fynn gael cam achos oi blaen, Neu beth a oſoder yn lle cam achos, fal y mae, *neu'r darllain, neu i ddarllain*, o'r Berfau Perſonawl. Rhai y ſydd. Ferfau Cedyrn. Rhai y ſydd Ferfau galwedig. A rhai y ſydd Ferfau gweiniaid. *Tair Berf gadarn ſydd, nid amgen, wyf, gwnaf, af.*

Pump Berf galwedig ſydd yn *Lladin*: a dwy yn *Gymraeg*, nid amgen. *Fe'm ganwir, fe'm gelwir, yr ydys i'm galw, fe ddywedir am danaf*, Y Berfau eraill y ſydd rai gweiniaid, A Berfau cedyrn. A Berfau galwedig, a Berfau y bo i grym hwyntau arnynt, ſel y mae *Af*, a berfau a berthynant ar ddiſyſedigaethau, fel y mae *Safaf, Eiſteddaf*. A Berfau a berthynont ar Weledigaeth fel y mae, *e'm gelwir, e'm dangoſir*. Ar Berfau hynn a fynnant gael *Nominadio* wedi hwynt, megys o'i *blaen hwynt*. A phą Gyſtrawen bynnag a fo ar Ferf yn ei blaen. Honno a ſydd arni yn i hol yn ei dychweliad, ac yn ei therfyniad. Ac yn y cyfraniadau, Annherfyniadau, y Berfau hynny a fynant gael Achuſiaid, wedi hwynt, o bydd Achuſiaid o'i blaen hwynt, Canys unrhyw achos ac a fo o'i blaen *hwynt*, a ſydd *wedi hwynt*, fal y mae *Trueni i Wr fod yn ddrwg, mi a wnaf i Wr ewyllyſiol fod yn dda, mi a welaf Wr yn ewyllyſio bod yn dda*;

Ac unrhyw gyſtrawenn a honno a ſydd ar y Cyſtrawn idau a ddel gan y Ferf honno: ſel y mae *y peth hyn ſydd o Wr ewyllyſiol i fod yn dda, Mi a arhedaf Wr. i fod yn dda.* Berfau galwedig a fynnant henw priod wedi hwynt, neu Alwedigaeth briod: Henw priod ſel y mae, *ſe am gelwir* Simwnt. Ac os yr Ymadrodd a ſydd amgen na hynny: Cam Ymadrodd ſydd oni bydd goſod y Ferf alwedig yn ammrhiodol, ſal y mae *e'm gelwir i dy Dadog*, Sef yw hynny: *ſe'm cyfrifir i dy Dadog*, O bedwar modd y gofynnir am henw priod, ſal y mae hynn, *pa ſodd y gelwir hwn? pa henw y gelwir hwn? pa henw a gafas hwn? pa henw ſydd i hwn?* O'r Berfau gwcinaid. Rhai ſydd Berfau rhyddion, y rhai ſydd Berfau Erchetnedig: Berf rydd yw yr hon y bo digon o ſynwyr ynddi heb Edrychedigaeth o gam achos wedi hi, ſel y mae, *Ef yn rhedeg, ef yn rhodio, ef yn dywedyd.* Berfau erchetnedig yw yr rhai y bo ynddynt edrychedigaeth ar gam achos oddiallan gwedi hwynt; ſal y mae, *ei gweler, ei cynnydder.* Or Berfau rhyddion, rhai a Gyſtrawennir ynghyd a Genedio. Rhai gyda Dadio, Rhai gyd ac Achuſiaid, Rhai gydag Ayllaid. Y Berfau hyn yma, *Ebyrgoſi, Truanhau, coppi*; A phob Berf ac a berthyno ar ebergoſio, A fynnant wedi hwynt Achuſiaid, neu Genedio ſil y mae: *yn ebergoſio, fyngwrès, neu o'm gwrès, Trugarhau* a all gael Dadio, gwedi hi ſel y mae, *Arglwydd trugarha wrthyf.* Y Ferf hon: *a dal*, a gyfanſoddir gyda Nominadio a Genedio wedi hi, ſel y mae, *Y Gwnn hwnn a dâl ddeg o Syllddau:* Y Berfau hynn parodhau: Gorchymmynnu dywedyd a fynnant gael Dadio wedi hwynt, neu Achuſiaid a Berf annherfynnedig, ſel y mae hynn: *Mi a orchmynnaf i ti wneuthur hinn.* Ac a fynno gael Achuſiaid neu Ddadio wedi heb Ferf annherfynedig ſel y mae. Mi a ddywedaf i ti neu na ddywaid y gair hwnnw i mi. A phob Berf

a

a berthyno ar gymwynaſau, neu Anghymwynaſau a tynnant gael *Dadio* wedi hyn, ſel y mae *mi a fynthyciaf y Tŷ, mi wyflaina tbi*, Berſau a arwyddoccaont Arglwyddiaeth neu Oruchelder, neu darpo tynged i gaeth, *neu ufudd dawd*, neu *gymbeiriaeth*, neu *gydym leithas*, a tynnant Dd:dio gwedi hwynt ſal y mae, *Mi a Arglwydda' arnat ti. Mi a adolygaf i ti. Mi a ddroſtingaf i ti, mi a fyddaf Gydymmaith i ti, mi a gymbeiriaf a thi*: Y Berſau a berthynont ar Weddio ſel y mae, *mi a weddiaf: mi a attolygaf*, neu ar gwynaw, neu ar wylaw. A ſynnant gael Achuſiaid gwedi hwynt, ſel y mae *yr wyf yn gweddio arnat ti, mi a wy'af ddwfr*. Y Berſau hynn yma, *eiſiebau, angenbau, arferau*, a ſynnant gael Apliaid gwedi hwynt heb arddodiad ſel y mae, *mi a wiſgaf am danaf wynn*, Berſau a tynnant weithiau *Achuſiaid* gwedi hwynt, drwy ffugr, *mi a boenaf fy mbenn*. Ac weithiau pan arwyddoccao amſer, neu le ſal y mae, *mi drigaia i gyda thi dridiau*, Ac weithiau pann arwyddocao achos ſal y mae, yr wy'n *amcanu gwellbau*, O'r Berſau erchetnedig. Rhai ſydd Ferfau Achuſiawl, Rhai ſydd Ferfau gwneuthuredig. Rhai y ſydd Ferfau dioddefedig: Rhai y ſydd Ferfau Canolig. Rhai ſydd Ferfau Cyffredin. Berf Achuſiawl a ſynn *Achuſiaid* gwedi hi ſal y mae, *Mi a'th gerais di*. Rhai eraill o Ferfau *Achuſiawl* ni allant leihau *Achuſiaid* gwedi hwynt, onibyrid Berfau annhertynedig yn ol, ſal y mae, *mi ath dybygaf di i Farchog*. Rhai eraill or Berfau *Achuſiawl* a tynnant gwedi hwynt ddau gam achos amraſael, ſel y mae y Berfau hynn, *mi ai piaf, mi ai cuddiaf, mi ai gallaf, mi ai pannaf*: Ar cyffelyb Ferfau a tynnant wedi hwynt *Achuſiaid* ac *Abliaid*, neu *Genedio*, ſel y mae, *mi a brynnaf y March* a dwy Bunt, Y Berfau hynn nid amgen, *Rhoi, caniad au, neu brynnu*, ai cyffelyb hwynt, a tynnant *Achuſiaid* wedi hwynt; a *Dadio*, ſel y mae, *mi a roſ*

ti Geiniog neu Swllt, neu Bunt.

Pa fodd yr adwaenir *Apliaid*, y rhai weithiau a yfgyfi y peth fal y mae, *Yn Ty, yn y Môr, yn y Dref*; weithiau eraill ai gwrthyd fel y mae, *Oddiwrth y Dref, oddiwrth y Môr.* Hefyd chwech Arwyddedigaeth fydd i *Apliaid*, fel y dywedpwyd uchod, nid amgen, *Yn, gyda, wrth, or, drwy, nag. Yn, gyda, wrth*, a Arwyddoccânt Yfgyfiedigaeth, fel y mae *yn y Ty, gyda'r Brenhin, wrth i droed, y ti, y Brenhin*, Ar Troed, *Apliaid* ynt o nerth yr arddodiad hynn, *yn, gyda, wrthi*, hefyd y Tri Arddodiad hynn, *or, drwy, nag*: a Arwyddoccant Wrthodigaeth; fel y mae, *o'r Ty; Drwy y Ty, nag y fo.* Ac felly y Llywodraethir yr Achofion. *Nominadio* a wna y peth. *Genedio* y piau. y *Dadio* y rhoddir y peth iddaw. *Achufiaid* a gyhudda: *Bogiaid* a eilw, *Apliaid* a wrthyd, neu a yfgyfi.

Pa fawl Cydgordiad fydd mewn Ymadrodd?

Pump: nid amgen, y *Cyffefin*, fef yw hwnnw y cyntaf, a fydd rhwng y *Nominadio*, Achos, ar Ferf, hwynt a Gydgordiant mewn dau beth nid amgen, mewn Rhif a Pherfon, pa fodd y bydd hynny; Yn un Rhif ar un berfon, y bo y *Nominadio* o'r blaen a fydd i'r Ferf ar i ol, fal y mae, *mi a garaf, ti a geri, ef a gâr.* Yr ail Cydgordiad a fydd rhwng henw gwann a henw cadarn hwynt a Gydgordiant mewn tri pheth; nid amgen; mewn *Rhif*, a Chenedl: ac Achos. pa furf fydd hynny? Yr un *Rhif* ar un *Genedl*, ar un *Achos* ac a fo yr henw Cadarn o'r blaen, a fydd yr henw gwann ar i ol, (fel y mae,) *Llymma Wr da, Llymma Wraig dda.*

Y Trydydd Cydgordiad a fydd rhwng henw dygiedig oi flaenor, a hwynt a gydgordiant mewn tri pheth: nid amgen, mewn *Rhif, Cenedl a Pherfon*; pa ddelw fydd hynny? yr un Rhif, yr un [illegible] ar un Berfon a fydd i henw dygiedig ar

ol i flaenor, Ac a ſo ywflaenor ſal y mae, *Pren a loſgwyd heddyw : yr hwnn a dorrwyd ddoe, Derw en* a loſgwyd heddyw yr honn a dorwyd ddoe. D a draſnwyd heddyw yr hwnn a gaed er ys blwyddyn. Y pedwerydd Cydgordiad a fydd rhwng henw Rhannedig Doſparthedig, a *Genedio*, hwynt a gyd Gordiant mewn un peth, nid amgen mewn *Cenedl.*

Pa fodd fydd hynny ? yr un Genedl ac a ſo ir henw rhannedig Doſparthedig o flaen y *Genedio*, a fydd i'r *Genedio* ar i ol yntau, fel y mae *Jeſan yw un or dynion*, ar *Genedio* a reola 'r enw rhannedig Doſparthedig.

Y pummed Cydgordiad a fydd rhwng *Superliaid râdd a Genedio* ar i hol hwynt a gydgordiant mewn un peth, nid amgen mewn Cenedl yn unig; pa fodd fydd hynny ? yr un *Genedl* ac a ſo ir *Superliad* Rådd a fydd i'r *Genedio* ar i ol, fel y mae *Mair* yw 'r deccaf o'r Merched, un Genedl yw *Mair* ar *deccaf*, *ar deccaf* yr un Genedl a'r merched. Ac oni byddant felly, ni byddant o un natur ni chydgordiant, fel y mae, *Y gwr gorau o'r gwyr.*

Ychydig o Ddoſparthiad y Llythrennau allan o Edeyrn Dafod Aur ; Ac hyn agefais i mewn hên Yſgrifen, megys Rhagymadrodd i'r Doſparth.

Edeyrn Dafod Aur o'i Gymmhenddoeth Athrylithr, ai Atriſed Athrawiaeth, ag Awdurdod ei Dafod ei hun. Yr hwn a roddai Awdurdod a'r bob Tafod a fae Athrawiaeth arnaw, i oſod Doſparth ar y Llythrennau, ac ar Ymadroddion, ac i'w goſod mewn cyfleuoedd dyledus. Ac i ſod yn Gyweirgorn cadwedig iddynt, drwy gadw Rheol i athrawiaeth yn gymmwys ; Canys fel hyn y traetha *Edeyrn* Calon a feddylia, Tafod a draetha a Cheudawd a geidw. Ac er hynny (medd ef) nid allodd perchen un Tafod o'r Byd draethu ſod u

un Gwr a allai ſymmud un pwynt o Reol ei Athrawiaeth ei hun gadw 'i hun; gan ddywedyd na ddichon y tawl ni cheidw ei Reolaeth et ei gadw ei hun.

Y mae et yn rhoddi Yſpyſrwydd o'r Egwyddor *Gymraeg*, a'i Sain, a pha fodd i Lefaru ac Anadlu pobpeth o hony t ac o herwydd i fod et yn gwneuthur defnyddio o Lythyrennau Anatferedig yn yr oesoedd yn myſg y *Cymru*. ac rhag digwydd o'r rhai hyn no'm fod yn achlyſur o rwyſtr ac ymryſoledd. dewiſiach geni lwybreiddio 'r Darllennydd ac yr Egwyddor ſy 'n nechreuad y Llyfr hwn

etto 'r wy 'n meddwl na bydd anfuddiol grybwyll peth o'i Y mae rhoddion ynghylch rai o'r Llythrennau, y mae et yn dywedyd nad yw *c. g. b. dd. ll* Lythrennau ag Awdurdod iddynt, eithr eu bod yn Arwyddocâu ac yn gyſgawd Lythr. Rhai o'r Llythrennau hyddant Fogeiliaid ac eraill Gydſeiniaid, o'r Bogeiliaid nid yw et yn addet ond chwech. Eithr am y Llythyren (*w*) mae 'n dwedyd mai nid cadarn et ad mo'ni, eithr Llythyren gynnull o dauwy [*u*] ydyw. ac na ddichon hi ſefyll mewn diwedd Gair Talgrwn heb nerth Llythyren arall gyd hi; naill a'i Bogail ai Cydſeiniad. Bogail fel y mae *ow*) Cydſeiniaid fel y mae (*bwnw*) tyn er allan un o'r ddwy [*n*] a dweder (*bwnw*) ag un *S*llaf y fydd. Yr Achos y gelwir hwynt yn Fogeiliaid o herwydd mai Bigeilyddion cadwedig ar yr holl Gydſeiniaid ynt, ar Achos y gelwir y Llythrennau eraill eraill Cydſeiniaid yw o achos Cydſeiniaw ar Bogeilaid y wnant yn dyner yn hynaw ac yn hyblyg. Rhai yn uchel a rhai yn iſel eu ſain. Y Llythyrennau tawdd yw. *c, f. l m, n, r, ſ.* Ar Achos o'i galw 'n Llythyrennau tawdd yw, O herwydd hwy y wnant ſain y Fogail y fyddo oe blaen yn guddiedig, a honno yw *e*, ac er hynny o nerth y Llythyren honno y mae pob

un

un o honynt yn lleiſiaw 'n uchel fel y mae *ec, ef, ol, em, en, es, er.* Mae neiyd bedair Llythyren fud, y rhai a ſeiſiant yn rhel, ſef, *b, d, p, t,* A'r Achos oi galw nwy 'n fud yw, y Fogail y fyddo yn ol pob un o honynt a gudd eu ſain hwynt, ac a'i treigla yn rychan ac yn ſel, a honno yw *(y)* Canys genddi y mae pob un o honynt yn caffael Awdurdod, fel y mae y rhai'n, ſef, *dy, by, ty, py,* Felly y geilw y Bugeiliaid ar yr holl Gydſeiniaid, ſefyll y wna un o honynt mewn dechreu Gair, neu yn ei ganol, neu yn ei ddiwedd, ac a fydd naill ai oi blaen ai oi hol yn plygu yn wafgedig atti, a pheri iddynt Seiniaw 'n briodawl Ketwm cyſſyllteđig wrth ei llais hi ei hun, a hynny yn un ſillaf weithiau 'n gryno, fel y mae *(ar)* weithiau arall yn Anghryno fel y mae *Arf*; hi a eilw ddwy gydſain ar ei hol yn gyſtanſoddedig ac yn hyblyg atti 'i hun. Os bydd y Fogail ar ol, ar Cydſeiniaid o'r blaen, hi a ymchwel i gydſeiniaw a hi ei hun, yn dyner fel y mae *Clô.* Os yn y Canol y bydd y Fogail, hi a gynnull yn gyſſyllteđig y cydſeiniaid drwy Alwedigaeth. Ac a gynnull arnynt ymroi yn ei ſain hi mewn Priodolder. Cyfrindeb naturiol at ei llais hi ei hun, fel y mae (*Plant:*)

Hyd hyn y dywedpwyd am y Llythyrenau gofodedig ſydd ag Awdurdod iddynt.

Tair o geingciau Cordd dafawd ſydd, ſef.

CLERWRIAETH.
TEULWU RIAETH,
PRYDYDDIAETH,
neu *FARDDONIAETH,*

Tri rhyw gerddawr Cerdd Dafawd ſydd, ſef.

CLERWR, ai Celfyddyd yw Clerwriaeth, ac ar hwn y perthyn y Ceingciau hyn, ſef;

Ymſenn-

Ymlennu, ymddyfalu, Dynwared, goganu: Ymbil, Gwarthruddaw.

Ynghylch Teuluwriaeth.

Teuluwr, A'i Geiſyddyo yw Teuluwriaeth, ac ar hwn y perthyn y Ceingciau hyn, ſef, Cytanneddu, hynny yw, llawenhau Dynion, a Dilyrru 'r Amſer, canys llawen yw bod yn gytannedd, haelioni, Erfyniad ag Erfyniad da yn Deuluaidd; Ac yn Deuluwraidd, heb ormod ymbil am danynt.

Ynghylch Prydyddiaeth.

Prydydd, a'i Geiſyddyd yw Prydyddiaeth, ac ar hwn y perthyn y Ceingciau hyn, ſef, iawn ddyſgu jawn Ganu, ac jawn Farnu.

Ei dri gorcheſtet yw, Duchan heb Serthni, canu. i Wraig briodol heb Ordderchgerdd, ac i Wr Eglwyſig yn Breladaidd neu 'n Offeiriadaidd.

Clodiori a Moliannu, Digriſwch meddwl, haelioni, Cerddwriaeth, Digrifhau dynion, gwrthwynebu Gogangerdd y Clerwr, a gochel goganu o honaw ef neb arall.

Uudd dawd, Haelioni, Diweirdeb, Cariad Perffaith.

A gwrthod yn ddileſg y ſaith Bechod Marwol, ſef. Trais Lladrad, Balchder, Godineb, Glythineb Llid, Lleſgedd, Cynhgen, Canys yr rhai'n a ddiffrwythant Awen, a ehôl a Dychymmyg y Prydydd.

Acwrth hyn gweliſ fod, Tair Colofn neu Gaingc Cerdd Dafawd, ſef. *Clerwriaeth, Teulawriaeth* a *Phrydyddiaeth.*

Tri ffrwythlawn Gerddawr ſydd, ſef, Prydydd, Bardd, Hiſtoriaidd neu Haneſydd.

Tri Oter gerddawr ſydd, ſef, Clerwr, Bardd y Blawd, a Hudawl.

Tri pheth y wna ffrwythlawn Gerdd, ſef, diddanu meddwl, chwanegu cof ac athrylithr, diſtrywdrwg Feddyliau.

Tri

Tri pheth y wna Otergerdd ſef, methu ſynwyr, llygru ſynwyr a mwyhau Pechodau.

Pa bethau a wnant lês ac Allês i Gerdd a Cherddorion.

Y pethau hyn a gadarnhâant Gerdd, ſef dyſnder Yſtyr, Amlder Cymraeg, godidawg ddychymmyg.

Y pethau hyn a wahanant Gerdd, ſef, Sathredig Ddychymmyg, ſef yr hwn y bo pawb yn taro arno: Baſder ſynwyr ac Yſtyr. Eiſiau Cymraeg.

Y pethau hynn a anrhydeddant Gerddawr, ſef, Gwiſcoedd, Awdurdod, Hytdra.

Y petheu hyn a ddlyſtyrant Gerddawr ſef, Noethni, Eiſiau Cerddwriaeth, Anghydnabod neu nâd adnabydder.

Y petheu hynn a hoffant gerddoſef Datceiniaid eglur, Cywraint wneuthuriad Dychymygfawr awdurdod y Prydydd, Deunyddfawr ſynwyr perffaith yſtyriaeth neu ddeall. godidawg ddychymyg neu gyffelybu.

Y pethau hyn a anhoffant Gerdd ſef, Lleſg ddatceiniaid, Sathredig ddychymmyg, amurddas y Prydydd.

Y pethau hynn a wellhânt Awen Cerddawr, ſef, Ethrylithr, Arfer, Celfyddyd, Ymryſon, llawenydd, Canmawl ei Gerdd.

Y pethau hynn a lygrant Awen Cerddawr, ſef, Meddwdawd, godineb, yſgymundawd, anghanmawl ei Gerdd.

Y pethau hynn a wellhant Gerdd, ſef ei datcanu mewn iawn amſer, ei chanu yn berthynas. bod Cerddawr ei farnu arni.

Y pethau hynn a waethant gerdd, ſef, ei datcanu yn anamſer, ei chanu yn ammherthynas, nid amgennag i'r neb nas dylei. Eiſiau Cerddawr iawn i farnu arni.

Y pethau hyn, A barant berchi canmol a charu, Cerddawr, ſef, Haelioni, Digrifwch, a chlodfori dynion da.

Y petheu hyn, a barant gaſhau ag mamherchi Cerddawr ſef, Cybyddiaeth, Dytrllydrwydd, neu ſoldyn drwſiar, gogauu dynion da.

Y peth u hyn a lawe hant Gerddawr, ſef, Ei berchi. ca hawi ei Gerdd a rhoddion gwyr da.

Y petheu hyn a dritiant Gerddwr ſei, ei ammherchi, anghinmawl, a ghredu, a chamſarnu ei gerdd ai naghau o'i Rôdd

Y petheu hyn a gywreinia nt Ymadrawdd mewn Cerdd: ſef, Cyfanſoddiad gwedau a chynnil y geiriau a'r ymadroddion, a ſiader Cymraeg, cyflawn der ar odychymmyg neu dychymmygtawr gerddwriaeth wrth gywreiniaw y gerdd, Lliw.

Y petheu hyn a anghyweiniant Ymadrawdd mewn Cerdd, ſef, Eiſiau moni i gyfanſoddi, anaminder Cymraeg, anghenrdd wriaeth.

Y petheu hynn a gywreiniant ac a Deilyngha t Gerdd, ſef, Ehydrwydd par. bi neu hyawdlder parabl, Cywrein eb ſynwyr, ymwafael ac anianawl ddeall y datcanu.

Y petheu hynn a anghyweiriant Gerdd, ſef, Pwnc ar eiri , anghywir rwydd ſynwyr, anyſtyriawl a ca y parablwr

Y petheu hyn a berffeithiant Ymadrawdd mewn Cerdd ſef, Cywir berthnas, jawn yſtyr, jawn Enaid ſef yw hyny Bert.

Y petheu hyn, a ammherffeithiant ymadrawdd mewn Cerdd, ſef, Amherthynas, ſef, canu peth ni chydweddo i'r neb y canter iddaw, megis moli Gwraig am ymlacio eiſiau Enaid, cam yſtyr.

Y peth u hyn y t archepcar i Cerddawr, ſef, Ehydrwydd parabl i ddatcanu cerdd, mytyrdawd cerddwriaeth rhagei bod yn gam. Hyfdra i atteb y peth u ofynner iddaw.

Y petheu hyn a barant i Gerddwr bod yn aml ei Gerdd ſef Cyfarwyddyd mewn hiſtoriau, Barddoniaeth, Hengerdd.

Y petheu hyn, a urddant Gerdd; ſef, Ehudrwydd

ac

a hyſder parabl, ethrylithr y dadceiniaid, awdurdawd y Prydydd.

Y pethau hyn a arurddant Gerdd, ſef Ei datcanu yn anamſer ac heb ei gofyn, ei chanu yn amherthynas neu i'r neb ni's dylae eiſiau cerddawr yn tarnwr cyſhawn,

Y pethau hyn a hogant Gerdd ſef, Hengerdd, Barddoniaeth, Hiſtoriau

Y pethau hyn a bylant Gerdd, ſef, anghyſarwyddyd, angherddwriaeth ei anghanmawl.

Y pethau hyn ni chynghant mewn Cerdd, ſef, Anwadalwch, Ynfydrwydd neu yſmalhawch, ſef yw hynny, yſgafnder meddwl, a ſynnwyr bâs o ſod yn llawen drwy turſendawd. Angherddwriaeth.

Y pethau hyn y caea Cerdd arnynt heb fyned yn eu herbyn: ſef Hengerdd yr hen Brydyddion, awdurdawd a dychymmygiawr gyntreinded y Prydyddion newydd dyſgedig celfyddyd o gerddwriaeth na aller myned yn ei herbyn.

Y pethau hyn a ddylae Cerddawreu cerddwreiddio ai cywreiniaw wrth eu datcan i eraill. pan o fynner iddaw, ſef, Dyſc, gwirionedd, a Barn ar gerddwriaeth.

Y pethau hyn a waherddir rhag Cerddawr, ſef Camſarnu ar gerddwriaeth, dywedyd celwydd yn ei ddyſg, dryg anian.

Y pethau hyn ni ddylae Cerddawr eu credu: ſef, Gogangerdd Clerwr, yn y lle y prydo Prydydd, canys trêch y dylu bod moliangerdd Prydydd, na gogangerdd Clerwr.

Canu camgerdd o Brydydd canmoled'g ac awdurdod iddaw, canys damwain yw cael datceiniad a ddatcano Cerdd yn gwbl megys y cano y Prydydd.

Credu yr hyn ni allo bod o herwydd y doethion, neu ddywedyd celwydd yn yſtyg, a goganu yn

ddiachos

ddiachos; megys na ddylai un ymolchi ddydd gwener, neu olchi penn ddydd mercher, gan ni wehyrdd y doethion yr un o'r rhai hynn nae cyffelyb: neu ddywedyd drwg am un heb prawf arnaw: neu ddywedyd y peth ni allo fod, oherwydd barn ar Gerdd.

Y pethau hyn a ddylu Cerddawr eu gochel, ſef, Meddwi, Futteinia, Clerwriaeth.

Ychydig o Athrawiaeth Angenrheidiol i'r Prydydd ſeuaingc fyfyrio arnynt, ai cyſgu 'n hwylus, cyn y meiddio ef ryfygu ymhonni ag ardderchawg Farddoniaeth, ni's gwybod a deall jawn Yſcrifennyddiaeth a'i pherthynaſau.

Wyth Arwydd gwahaniaeth Ymadrodd.

YMae wyth o iawn Arwyddion i wahanu Ymadrodd, y rhai a elwir ſel hyn, Perffeithnod neu Gyfannod, neu ddiweddnod. gwahanod, rhagwahanod, Gofynnod neu Nôd a Holed gaeth. Dieithr ſang, diaſpad neu Ryfeddnod, anorphennod, Scythrnod, Didolnod.

Perffeithnod a Yſcrifennir fel hyn (.) ac ſydd yn arwyddoccau dibennu rheſwm perffaith.

Gwahannod a wneir o ddau nodyn bychan ſel hyn (:) a gorphwyſta ydyw mewn hanner Rheſwm.

Rhagwahannod ſydd o'r fath yma; yn Arwyddoccau fod yn y lle hwnnw wahan, ond yn amherffaith, ar tri a ellir eu gweled yn y Fraich hon o ddeuair hirion, ſef. *Ti yw'r gwann, taw ar y gwir: Arian da a wrandewir.*

Gofynod ſydd ar lluniau yma iddo (?) yn Arwyddoccau fod yn gofyn rhyw beth wrth, ſel y mae Pennill yma 'n gwirio. ſef,

Ple 'try heddyw plaid rhoddion?
Preſeb Sais heb Rîs ab Sion?

Dieithr ſang a's ddeurod yma, ( ) i ddwyn ar ddeall,

ddeall yr Ymadrodd ſydd rhwng yr rhai'n megys peth dieithr wedi 'i Sengi yna, ac a elwir Ymſang mewn Rhetwm, heb ſod yn angenrheidiol i gyflawni'r Ymadrodd honno, fal yn y Fraich Odl hon.

Blaidd ac Oen (ble 'dda gwaunwr.)
Yntwy ddau aent gynt i ddwr.

Anorphennod a lunir fel hyn, (,) Yn niwedd llinell neu rês i ryluddio ſod y gair yn annorphen yno, a bod y ddarn arall yn nechreu 'r llinell ly 'n canlyn. ſef attaliad neu orphwyſia.

(') Wrth y Nôd ymma yr yſpyſir ſod wedi Scythru a thorri ymmaith Fogail neu Lioſſeiniad, naill ai i ochel drygſain ai yntau i achub meſur mewn Pennill. Odid iddo ſod yn unlle ond pan ddel dwy Fogail ynghyd, un yn niwedd Gair, a'r llall yn nechrau 'r Gair a ganlyno. Fel hyn, *Mi af yr Wlad*, mi af i'r Wlâd, yn lle *di yw yr dyn, di yw 'r dyn.* Ac fe a gyſſyllir y ddau air yn un, megys pe bae'nt un Gair, *mae 'n*, yn lle *mae yn, taro 'r gwr*, yn lle *taro yr gwr.* Fe a newydir mewn rhai mannau y geiriau ymma a'r cyffelyb, fel, *yw'r peth mae 'r gwr*, yn lle yw y peth, *mae y Gwr*, a hynny i ochel drygſain, canys anweddus a diflâs y ſydd llafar cymmaint o Fogeiliaid ynghyd. Am hynny fe dynnwyd y, rhagwas yr henw ymmaith, ag fel y dylid gwybod y dylai ef ſod yno, fe roddwyd r lle y dylaſſai ef ſod, a pha bryd bynnag yr Scythyrir (y) rhagwas yr Henw, fe roddir (r) yn ei lle. Yr rhagwas yma, naill ai [y] (*yr*) neu 'r pan ddelo Cydſain yn neſaf o'i flaen ef, ac yn neſaf ar ei ol hefyd, (*y*) a yſcrifennir, fel daeth y gwr, os cydſain a ddaw o'r blaen a Bogail neu Lioſſain ar yr ol, yr, a gyſtein, fel, *Gwas yr Arddwr*, neu pan ddelo Gair yn dechreu ag *ſt*, *ſp*, ar i ôl, fel yr *ſtalwyn*, yr *Spodol*, etto rhai a rydd *ys* yn nechrau 'r cyfrgw Eiriau, fel yr yſtalwyn, ond os Bogail o flaen yr rhagwas, tecaf oedd 'Scrifennu'r 'r fel, *de 'r Gwr, plu 'r adar.* &c.

Ath-

Athrawiaeth ynghylch iawn Scrifennyddiaeth a'i phertbynasau.

CANYS Llwybr neu fath ar ddywediad, ag Yſcrifenniad, wedi 'i ddeuthro yn oddiarn, ac yn geltyddus oddiwrth y Ffordd gyffredin, fel y gellir rhoddi Rheſwm tros hynny o beth, megys i ochel dryglain, i achub Pennill, neu ryw beth arall a fyddo Rheſymol, y mae wyth ffugr yn angenrheidiol i iawn Yſcrifennyddiaeth, ſef, Tri a fydd i'r gair ychwaneg o Lythrennau, neu Sillafau, ſef, *Gwraidd dyſtaid, Gwrthdrychiad, a Brigdyſiad*, A thri eraill ſydd wrthwyneb i'r rhain, ac a dynnant ymmaith Lythyren neu Sillaf o'r Gair, ſef *Gwraidd-dorriad, Trychiad, Brigdorriad*, a dwy a newydia Lythrennau, ſef, *Troſelfeniad, a thrawsymanſawdd*, Y Ffugr neu 'r ffordd i roddi at ddechrau 'r Gair, Llythyren neu Sillaf, megys yr *yſcrifen, tros yr Yſcrifen, ydwyf tros wyf*, gwrthddrychiad yw 'r modd i frathu Llythyren neu Sillaf yng hanol Gair. megys oddiwrth, tros *oi'wrth, lleuyrch tros lewyrch. oddiar tref, tros oi gartref*, Brigdorriad yw ffordd i roddi Llythyren neu ſillaf at ddiwedd Gair ſel *Annogi. tros annog. tacclufe tros tacclue*, Gwraidd dorriad yw modd i dorri ymmaith ddarn o ddechreu gair, *ſel menyn*, tros *Ymenyn, ſprydol, tros yſprydol. ab Sion*, yn lle Fab *Sion*. Trychiad yw ffordd i dynnu allan Lythyren neu Sillaf o berfedd gair, megys, *Llythrennau tros Lythrennau rhoi*, tros *rhoddi, cael, tros caffael, mynd tros myned.* Brigdorriad ydyw ffugr yn torri ymmaith ben y Gair, megys *gofyn, dyfyn, tros gofynnu, dyfynnu:* Canys o'r gair *mynnu*, y cyſanfoddwyd y ddwy.

Troſelfyniad yw Ffugr yn goſod un Elfen neu Lythyren tros y llall, megis *Meneginiaeth* tros y Gair *Meddyginiaeth*, *Sarthes* tros *Sarphes*.

Trawſgymmanſawdd, neu *trawsymſymmud*, yw ffordd

ffordd i droi din dros ben, y naill Lythyren, yn lle 'r llall, a'r llall yn ei lle hithau, fel *Llaſwyr* tros *Sallwyr*, o'r Gair *Pſalterium*.

Colofnau Cerdd Dafod ydynt Gyhydedd, ac o'r rhei-'ny y mae naw.

Y *Gyhydedd ferr af*, a gynghaneddir o dair Sillaf, ac a arferir yn niwedd Gorcheſt y Beirdd, fel. *Y ſydd ſaeth*, 3 ſillaf.

2 *Y gyhydedd ferr* o bedair ſillaf yr hon a arferir mewn Cywydd deuair fyrrion, fel, *Gruffudd Griffwnn*, neu. y *mae i mi*, *Jôn i'w Enwi*, 4 ſillaf.

3 *Gyhydedd wenn droſgl*, a gynghaneddir o bum Sillaf, yr hon a arferir gan mwyaf yn y gyhydedd hir, fel, *O Dad Owain dwnn*, neu *iawn edn iw nodau, ai blaid rhif blodau*, 5 Sillaf.

4 *Y gyhydedd lâs*, ac a gynghaneddir o chwe ſillaf, ac a arferir yn niwedd Clogyrnach, fel, *Brau wyt wyr*, *Robert Dwnn*, neu *Braich yn niwl Brycheiniawg*; *Puw Euraid powerus*. 6 Sillaf.

5 *Y gyhydedd gaeth*, Ac a gynghaneddir o ſaith ſillaf yr hon yw unig Gynghanedd Cywydd deuair hirion, fel, *Praff wydd wyd imp Ruffudd Dwnn*, neu *y mae i mi am y Myd*, [ac yn gymmer iddo, *wyneb un yn ei benyd*, arall, *Lau mwy Duw mawr di a'i medd*, 7 Sillaf.

6 *Y gyhydedd draws*, a Gynghanedd o wyth ſillaf ac a arferir mewn Cywydd Lloſgyrnog, fel, *praff*, *waed dydd daed*, *Meredydd Dwnn*, *neu O'l awn i'r gaer y llenwer gwin*, *I glôs hirddôl Eglwys Hyrddin* 8 ſillaf:

7 *Y gyhydedd Drwſel*, a gynghaneddir o naw ſillaf, ac a arferir mewn Gwawdodyn hir, fel, *pwy yn rhoi dy Aur pai Henri Dwn*, *neu Rhedaf rhâd breiſgaf lle rhed brwyſgion*; *Rhandair rhoed oſſai i'r rhaidiſion*, 9 ſillat.

8 *Cyhydedd hir*, a gynghaneddir o ddêg ſillaf ac a arferir yn Hir a Thoddaid, fel *pwy 'n ofoff dda*,

da pai hên Ruffudd Dwnn, neu *Cymer Lew tyner Cymru loyw tanad*; *Corf jau dewr weddau cryf yw dy wreiddiad*, &c, 10 Sillaf.

9 *y gybydedd hwyaf*, a gynghaneddir o un Sillaf ar ddeg, ac a arferir fel hyn ar ddull Toddaid. fef,

Ibob ffair rhwyddgrair daw Rhys, fel y Paun,
O bu ôd wybr i Waun ni bo waed heb Rŷs.

Ac heiyd o Ddeuddeg Sillaf fel hyn.

Iawn o'i berchi i bawb erchi o bob eirchiad,
Ar y diben oes anniben i Sion Abad.

Tri Phrif Fefur Cerdd Dafod fydd, fef,

ENGLYN,
CYWYDD, ac
AWDL.

Pum Englyn arferedig fydd, fef,

Englyn { *Unodl union,* / *Unodl gyrch, ac* / *Unodl grwcca.*

Dau Englyn Prôft, fef, { *Proft Cyfnewidiog,* / *a Phroft Cadwynog,*

Pedwar math o hên Englynion anarferedig, fef, { *Englyn o'r hên ganiad,* / *Englyn garrhir,* / *Englyn Milwr,* / *Englyn Cildwrn.*

Pedwar rhyw o Gywyddau fydd, fef.

Cywydd { *Deuair farrion,* / *Deuair Hirion,* / *Cywydd Lloſgyrnog,* / *Ac Owdl gywydd.*

Pymtheg rhyw Awdl.

Foddaid, gwawdodyn Byrr, *Byrr a Thoddaid, Hir a Thoddaid. gwawdodyn*

gwawdodyn hir,
Hippynt Byrr,
Hippynt Hir,
Cybydedd ferr,
Cybydedd hir,
Cybydedd Nawbann.

Clogyrnach,
Cadwyn fyrr,
gorcheſt y Beirdd,
Cyrch a chwtta, (og.
Tawddgyrch gadwyn.

Ac ef a ellir rhannu y pethau uchod a'i dywedyd yn y wêdd hon.

Tri Enaid Cerdd Dafod ſydd, ſef, *Meſur, Synwyr a Chynghanedd.*

Meſur yn yr ſynwyr — *Meſur yw'r llwn y bydd* — *a phob meſur a genir o uu o'r 7 golofn, ſef ſaith gyhydedd.*

y gynghanedd — *a genir o* — *Ferr Wenn Lâs gaeth draws drwſcl Hir.*

Bedair pump, Chwech, Saith, Wyth Naw, Deg, Sillaf.

Ac o Gyhydedd y gwneir Braich, or Breichiau y gwneir Pennillion, ac o Bennillion gwneir Meſur.

A thri rhyw Feſur ſydd, yr rhai'n a elwir Tair Caingc Prydyddiaeth, ſef.

Englyn neu Ynglyn — *Englyn ſydd dau Ryw* — *Unodl* — *Tri rhyw Englyn unodl ſydd ſef,* — *Unodl* — *Union, Gyrch, Grwcca.*

Dau ryw Englyn Proeſt ſydd, ſef, — *Proeſt* — *Cyſnewidiog, Cadwynog.*

Cywydd neu gywydd — *3 meſur Cywydd ſydd, ſef* — *Deuair Lloſgyrnog Owdl gyw.* — *Dau ryw gywydd* — *Dhirin. Deuair. fyrion.*

Owdl neu Awdl } 8 brif ſeſur Owdl ſydd, ſef, { Toddaid a 3 rhyw ddaid ſydd { Toddaid ar ei hun / ei ben Hir a Thoddaid, Byrr a Thoddaid,

Cyhydedd a } Thair cyhydedd ſydd { Cyhydedd { Ferr, Hir, Nawbann.

Hupynt a } dau Hupynt ſydd, { Hupynt Hir, Hupynt Byrr,

Gwawdodyn a } dau wawdodyn ſydd, { gwawdodyn { Hir, Byrr,

Cadwyn feſur a } dau gadwyn Feſur ſydd, { cadwyn fyrr, tawddgyrch gallwynog.

Cyrch a chutta, clogyrnach, gorcheſt y Beirdd.

Cynghanedd yr hon a ſonnir am dani yn ei lle cyfaddas.

Dau ryw gyrch ſydd, ſef.

CYrch Cynghanedd, a hwnnw yw Gair tros yr Odl, yr hyn yn gyffredin yw'r gair Cyrch mewn Englyn unodl union; canys efe a gyrch Air arall, ac o'r Bann arall i Ymgynghaneddu ag ef; a hynny gan guddio a thywyllu ſain y Brif Odl o'r blaen.

Cyrch Odl, a hwnnw yw Gair yn cyrchu gair arall, ac o'r Bann arall yn cyd Odli ag ef, neu yntau ymgyrchu at Air o'r Bann arall i ymgyfl Odli ag ef. A (chyrch dawddodl) y gelwir hefyd, am fod yn toddi ymmaith ac yn difa y Brif Odl y bo ef ynddo, ac yn cyrchu atto Odl gyfaddas iddo 'i hun, a dieithr neilltuol i Brif Odl y Meſur, Ar Gair cyrch hwn (ondodid) a gyrch atto hefyd air y Brit ddiwedd Odl i ymgynghaneddu ag ef.

Yng hylch Pennillion a Breichiau.

Pen (Pennill, Bann neu Fraich) a elwir felly o achos

achos en bod yn pennu, bannu neu Amgyffred, ac yn diweddu Gwers neu werſi. Canys ni elwir na Phenniil na Bann, na Phen &c. nes iddynt bennu a diweddu gwers neu werſi, na byrr na hir, nag un na mwy o werſi neu Linellau a ſ'ont.

Bellach nid Anghymmeſur ydyw dangos Athrawiaeth i gydnabod Meſurau Cerdd Dafod, y rhai a ſylfaenwyd, ſefydlwyd, ac a gadarnhawyd gan Einion Offeiriad, a Dafydd Ddu Athraw o *Hiraddig*, y Minnwyn, Dafydd ab Edmund yr Awdur Ariandlyſog, ag eraill.

Y rhai hynny a ddechreuodd ar Foliant i Dduw, er amſer *Enos* ap *Seth* ap *Adda*, y Gwr cyntaf a Foliannodd Dduw; Y rhai a dderbyniodd ddawn Yſprydawl, ac a ymddangoſodd o tewn y chwe chanfed Flwyddyn yn ôl Creadîgaeth *Adda*, Ac o hynny hyd Enedigaeth Ein Harglwydd a'n Jachawdwr Jeſu Griſt; Yr hon Ddawn a gynnhaliwyd gan y Prophwydi Sanctaidd yn Prophwydo Criſt ni's ei ddyfod. A'n Jaith ninnau pan gredaſant i Griſt a'i cafodd trwy 'r Yſpryd Glân; ac a alwaſant yr Yſpryd Glân yn Awen, yr hon a ddiſlanna gan Bechodau, ac a amlha gan gytarwyddyd, a gwybodaeth a Sanctaidd rwydd.

Yn ôl dull Einion Offeiriad.

Yr { E, Y. / Er, Yr. / Ys. } Bannogion ydynt, ac ni ellir mo'u hepcor neu fod hebddynt yn y *Gymraeg*, i flaenori ar eraill o Rannau Ymmadrodd.

Yn Athrawiaeth Dafydd Ddu,

Er { E, Y, / Er, Yr } Nodau Bannog y gelwir o achos eu bod (megys Moelydd rhwng Mynyddoedd, yn cymmanu ac yn cynnmalu rhwng parthau 'r Ymadroddion.

Yn ol meddwl Edeyrn Dafod Aur.

Er { A, I, / E; Y, } Rhagweiſion Berfau y gelwir, am fod pob o honynt yn rhagwaſanaethu ac yn gwneuthur gwrrogaeth i'r Berfau.

Ac fel hynn gan y Minwynn.

Y { Idd, Ydd, } Gweinidogion Anhepcor ŷnt yn
{ I'r, Yr. } yr Jaith Gymraaidd ; a blaenorion i'r Bertau.

Athrawiaeth ynghylch Englyn Unodl uniawn a'i pherthynasau.

YNglyn neu Englyn Unodl uniawn a fesurir o ddeg sillaf ar hugain ; un ar bymtheg yn y Paladr, yn y Bann neu 'r Llinell gyntaf a chytri'r gair cyrch ; a chwe sillaf yn yr Ail Bann neu Linell, a faith ym mhob un o'r ddwy Bann neu 'r ddwy Linell olaf, ac mewn Englyn Unodl uniawn, y ddau Fraich gyntaf a elwir (*Paladr*,) a'r ddau ddiwaethaf a elwir [Penn] neu (Esgyll ; yn gyffelyb i Saetn Fwa, ac mewn un odl Crwcca y bydd yr Esgyll yn lle y Paladr, ac mewn Unodl union o bydd y Brif Odl gyntaf yn terfynu ar y chweched sillaf ; set un Sillaf ar ol y Rhagwant, rhaid bod pedair sillaf yn y Gair Cyrch, A cos yn y seithfed sillaf y terfyna y Brif Odl, bid y Gair cyrch yn dri sillafog : ac o's yn yr Wythfed Sillaf y terfyna y Brif Odl, bydded y Gair cyrch yn ddau Sillafog. Ac os yn y nawfed sillaf y terfyna'r brif Odl ; bydded y gair Cyrch yn un sillafog.

Yr Engraph gyntaf ynghylch Englyn, neu Ynglyn, Unodl uniawn ; a gwybyddwch mai Toddaid a dwy Fraich a Gywydd deuair hirion ynglŷn neu ynghyd, a wna Englyn neu o'r achos a elwid Ynglŷn.

Englyn Unodl uniawn a'r Gair cyrch yn un Sillaf.

Maddau Dâd fwriad fy oferedd mawr,
Mo'r erwin yw Trosedd,
Menadia fi cyn mynd i Fêdd,
Mae achos yn fy muchedd.

Madd.

Ma ddau. Dad. ſwr-iad. ſy. o-ſer. edd. mawr 10
Mo'r. er-win. yw. Tro ſedd-. 6
Men dia. ſi. cyn. mynd. i. Fêdd. 7
Mae. Ach os. yn. ſy. Much edd. 7

Arall ar Gair cyrch o un Sillaf.

Arglwydd Nêr ſyber dewis Obaith Dŷn,
Adwaenoſt ſy Araith;
Arwain y ſi wir Jôn ſaith,
Awen burffydd yn berffaith.

Ar-glwydd. Nêr. ſy ber. dew-is. o baith. Dyn.
Ad-waen-oſt. ſy. Araith.
Ar-waen. y ſi. wir. Jôn. faith,
Aw-en. bur ffydd. yn berffaith.

Englyn Unodl uniawn ar Gair Cyrch yn ddwy ſillaf

Barnwr Rheolwr rhyw alwad y Beirdd,
Bur ddoeth Araith waſtad;
Baun anwyl o ben Ynad.
Bu erchwyn glwys barch ein gwlâd.

Barn-wr. Rhe-ol-wr. rhyw. al wad. y. Beirdd.
Bur-ddoeth. Ar-aith, waſt ad.
Baun. an-wyl. o. Ben. Yn ad.
Bu. er-chwyn. glwys. barch. ein. Gwlâd.

Englyn Unodl uniawn ar Gair Cyrch o dair ſill

Fy moddion ffrwythlon ſy ffraeth fawr ſwriad,
F' arterol Lywodraeth; 6
Fy llawenydd fy lluniaeth, 7
Fy Nuw yn fy myw fy maeth, 7

Fy. mod l-ion. ffrwth-lon. ſy. ffraeth. fawr. ſwr-iad.
F' ar-ter-ol. Lyw-o l-raeth.

Fy. llaw-en-ydd. fy. llun-iaeth.
Fy. Nuw. yn. fy. myw. fy. maeth.

Englyn Un Odl uniawn a Gair Cyrch o Bedair Sillaf, ac nid all fod ychwanag o Sillafau yng-hyrchfa Englyn.

Cyhydedd o glirwed i glod Aur Ganghenau,
Cynghanedd hên Ddefod,
Cyfrodedd ddiommedd ammod,
Cwyredd jawn Jaith croyw dda nôd.

A hwn a'r rhai isod a Wasanaetha er Athraw iaeth i Ganu Cyfochrawg Odlau.

Cy-hyd-edd. glir-wedd. glod. Aur. Gan g-hen-au
Cyng-han-edd. hên. Dde fod.
Cyf rod-edd. ddi om medd. am-mod.
Cwyr-edd. jawn. Jaith. croyw-dda. nôd.

Mae 'r cri am roddi 'n yr Arch, mawr yw'n poen
Marw ein Pen dihafarch, *I William Pughe o*
Mae oer wylo marw Alarch, *Fathafarn* Esq
Marw yr ꝑuw i mi a'r parch, *J. R.*

Pen breisgedd Bonedd bennod, (parch fawredd,)
Pôr glasglêdd pûr glwysglod;
Pwyll distaw pell yw d' Ystod,
Pirs Aur Nûdd parhaûs Wr Nôd.

Pen Marchog enwog Enaid, (pwys *Dinbych*,)
Pôst jawnben *Salbriaid*;
Penaig Gwyr Paun cywiriaid,
Pendefig paladririg plaid.

Cariad cynnyddiad Cain wiw-ddyn, coelia,
Celais lawer Blwyddyn:
Câr fi 'n ddwys cywir Fain ddyn,
Cywreindeb yw Caru unadyn.

Paun

Paun urddas mêlwas moliant, (pur ogluʼl,)
Periglor Plwyʼ *Hirnant*, *I'r Parchedig Mr*
Pendefig (pwy un dyfiant,) *Robert Lloyd.*
Pôr loyw wawr borth Perl a'r bant. *J. R.*

Melus a nwyfus iawn ofeg, manwl,
Mwyniant peraidd adeg; *I Humphrey Owen o*
Mae'n fan doeth min Afon deg, *Garreg Yſtymy*
Mainc ei Arâith mewn Carreg. *Llaeth. J. R.*

Saer Gywydd ddedwydd odiaeth, Saer Cerddi,
Saer cywirddawn perffaith,
Saer Cʼrolau Saer cryʼ eilwaith,
Penaeth Seiri Meini maith.

Englynion Unodl uniawn a ddoſperthir fel yr Englynion uchôd, y rhai a fyddo a Gwan a rhagwan iddynt, (neu wahan a Rhagwahan,) eithr y mae Englynion heb na gwan na Rhagwan ynddynt, a'r rheiny a genir ar ygroes neu ar y draws gynghaneddyn nebrau 'r Paladr, Ac ail ddull ar Englyn Unodl uniawn yw ei draws Gynghaneddu heb Ragwan ynddo.

Engraph Un Odl uniawn, heb na gwan na rhagwan ynddo, ſef.

Paʼm y cyfarth Ci, paʼm y cyfedd Dyn,
Gwedi dwyn ei fawredd;
Paʼm y Cân Anghyfannedd,
Ceiliog a Madog ym Mêdd.

Arall.

Da gennym iʼw deg Ynys [draw redeg]
Drwy Oreudir Powysʼ;
Da fu hwyl dof iʼw hoywlŷs, *G. Glyn*
Dyfod drwy *Deiſi* at Rŷs. *i Rys ap Tewdwr.*

Arall.

Daʼr Gwanwyn yw'r Tân, rhag drwg anaf [wledd]

Neu Indded *Cynhayaf*;
Da a gwyw rhag anwyd *gayaf*.
Da'r hynt i drin bwyd yr *Hâf*.

Fe ellir Trawſgynghaneddu y gerdd yn nechra
Enelyn fal hyn, ſef.

Duodd fy nghuſan myn Dewi; (i Fun)
Gwae finai ei rhoddi;
Iawn oedd a'r Cuſan iddi,
Y mann wynn ar ty min i.

Arall.

Arglwydd Sain *Benet*, a erglyw, (weinia id)
Anawdd cael ei gyfryw;
Bid *Meneſtr* bywyd *Mynyw*,
Beda ddoeth Abadoedd yw.

Ac er na byddo Rhagwahan ynddo fe ddylae fod y gorphwyſta yn y bummed ſillat, Ac weithiau y cenir Godidowgrwydd ynddaw, (hynny yw) rhoi Gair cyrch i atteb i'r bumed Sillat, fel y mae hwn

Dolur a geſais, o dalhu, dwyais,
Dial am Bechodau; S. *Fychan.*
Dwyrain Adwyth Dyrnodiau,
Dwrn y Cryd yn dirwyn crau,

Neu fal hyn.

Aur Lawenydd a'r Lannerch a ydwyd,
Odiaeth waſgwr Gwenterch;
Y Gan ſydd o eigion ſerch,
Seiniwr rhwydd i *Sion Rhydderch.*

Merddin ffraeth a mawrddawn ffri, Tewlwys waith
Taliesin am Odli:
Mewn Tref Seilnig brig y bri,
Horas wyt hir oes i ti,

R. o Ragad.

A

Ac yn Cynghanedd Bendoll drwſgl o'r hen Gan-iad yn nechrau Paladr Englyn fel hyn,

Gorau wyt *Iſor* goryf ſyth (yn rhi,)
Yn rhoi Deiphr a'r Eſſyth:
Ar y fu gu gwehelyth,
Ar y ſydd ac a fydd ſyth.

A Chas genni roddi 'r cyfryw Athrawiaeth ar awr, o herwydd ei gwaeled; rhag mai haws y ydd gan amryw ddyſgu a dynwared y cyfryw a'r lleill ſydd o amgenach Celfyddyd, er i eraill 'r blaen roddi Gormodedd o'r hen ddull yn ei lengraphiadau; ac fel y dywedir am yr hen Gandau, nad oedd ynddynt Gynghanedd ond o ddam aiu. Gan hynny nid ymarfera i ar cyfryw rwſgleiddwaith ond lleia ag allwy; Canys fy niuant ddymumad ſydd ar i'r Hollalluog Dduw ynnyſgaeddu 'r cyfryw Brydyddion (ag ſydd fediannol o'r ddawn Ragorol o Awenyddiaeth) ar ddynt gyrrhaedd hyd eitha nod Uchelgamp eu laenorion yn y Gelfyddyd; O herwydd fy mod n llwyr Obeithio, roddi yn y Llyfr hwn helaehach, ac eglurach Athrawiaeth i'r diben hwnnw ag y fu o'r blaen yn Gyffredinol.

Englyn Unodl union a derfyna weithiau mewn,

Bogeiliad ac weithiau yn } *Un Fogail,* / *Ddwy Fogail,* / *a hynny mewn,* } *Dipthong dalgron,* / *Dipthong Leddf,*

Cydſeiniad, ac weithiau mewn } *Un Fogail a Chydſain a hynny mewn* } *Llioſain dalgron a chydſain, Llioſ ledaf a chydſain.*

Englyn Unodl union yn terfynu yn un Fogail, fel hyn.

Chwentais do triniais Duw tri, [achwynaf,

Chwen.

Chwennych pob drygioni ;
Chwaith yn awr chwith yn oeri,
Chwant fy arwain dan d' Adain di.

Arall ar un Fogail.

Un Jôr mewn Goror y Gara, (un *Llaw*)
Un Llywydd Gorucha :
Un hoffaidd Ddyfg un ffydd dda,
Un Bintwn dan Dduw 'n benna.

Arall o'r unrhyw.

Fy ngobaith dwys Jaith wyd Jefu fy mad,
Fy Moliant a'm Gallu ;
Fy Amgeledd heb geiu,
Fy unig hawl fy Nuw cu.

Englyn Unodl union yn terfynu mewn Llioſain Dalgron, fel hyn.

Dilynais clwyfais fel y clyw, (deucant)
Y Deccaf o ddŷn byw ;
Dolur gormodd a'm dilyw,
Dilyn pryd ewyn prid yw.

Arall ar Lioſſain Dalgronn.

Crift hylwydd Arglwydd erglyw, un gwiw Dduw,
Ein Gweddi ni heddyw,
Moddion clais maddau i'n clyw,
Bechodau ebwch ydyw.

Englyn unodl union yn terfynu mewn Llioſſain Leddf fel hyn.

Talieſin Merddin a mwy, [o *geiriog*,)
Hyd gyrrau Glyn Dyfrdwy,
Huw mawr blaid Homer ei Blwy,
Hoyw y cân fel Huw Conwy.

Un arall o'r un ddull.

Mae 'ngobaith berffaith tra bwy na ddelo,

Ddialedd

Ddialedd Ofnadwy;
Wneuthur Ammod na Thramwy,
I 'ddoli mud, Ddelwau mwy.

Englyn Unodl union yn diweddu mewn un Bogail a Chydſain.

Hyn yma cofia cylod (mytyria;
Am tarw o Griſt drofod;
Dyro bob Awr glyd fawr glod,
Dda walch pur ddiolch parod.

Neu fal hyn.

Glanha diwygia hyd eigion gwaeſod,
Dirgelwch dy Galon;
I'r Priodaſtab graſlon,
Tirion hap gael tario 'n hon.

Englyn Unodl union yn terfynu mewn Lliofain dalgron a chydſain.

Ofer ô jawnder undawd, (Hwyl anaw)
Haelioni 'r Bydyſſawd;
Wrthyd ail *Arthur* yrthwawd,
Cadwgon Cadr Ffynnon ffawd.

Arall ar yr un gynghanedd.

Dyn bur wych Natur a'i chnawd (yn burwynn;)
A barawdd i'm nychdawd;
Dŷn Lanwaith berffaith burffawd,
Dŷn dlôs ond ei bod yn Dlawd. *W Llŷn*

Goſodiad, Dodiad neu Rhoddiad yw Attebiad y Bummed Sillaf o Baladr Englyn Unodl union i i ryw ſain mewn rhyw Sillaf o'r blaen; Ar Sillaf honno y tydd naill ai 'r gyntaf; ai yr Ail, ai 'r drydydd, ai 'r bedwaredd, a goſodiad y gelwir, am ei bod gwedi ei goſod i Atteb i ryw Sain o'r blaen a hithau 'n rhyw Orphwyſta, megys yn yr Engraphau iſod.

Goſodiad

Golodiad neu Orphwysta y Paladr yn y bummed Sillaf, mewn Sain i'r Gyntaf, *Megys, Mair Forwyn ddiwair*, &c. neu *Dyn wyf yn d' ofyn*, ar gyntaf yn Atteb i'r bummed ym mhob un or ddwy.

Yr ail megys, *Diwair ydyw Mair*, neu *Pum llwyth T"wy Jawglwyth*, ar ail yn atteb i'r bummed.

Y Drydedd megys, *Morwyn Fair ddiwair*, neu *Y Marchog bywiog*, &c. ar drydedd yn atteb i'r bummed.

Y Bedwaredd megys, *Ceraſs wylan lân*, neu *Yn Rhi ddifyrr, ſyrr*, &c. a'r bedwaredd yn atteb i'r bummed.

Ac nid ertyb y bummed ſillaf o Baladr Englyn onid i'r Gyntaf, i'r ail, i'r Drydedd, ac i'r bedwaredd Sillaf.

Ac o bydd y gwan { *Un Sillafog* / *Ddau Sillafog*, } *Bid y rhag-want yn* { *Bedwar Sillafog*, *Dri Sillafog.* / *Dri Sillafog*, *ddau ſillafog.* / *Bedair ſillafog* *Un ſillafog.* }

Am fod yn rhaid i'r Rhagwant neu 'r Gofodiad derfynu yn y Bummed Sillaf o'r Paladr.

Ac Engraphau ar y Doſparth uchod bid y rhai hyn ſet y gwan yn un Sillafog, ar rhagwant yn 4 ſillafog.

Pen (Cawr Ynys wenn) i wnio (*Aliwns*)
Oedd *William* Jarll *Penfro* ;
Pen *Bruttwn* o'r Dwnn Aur Dô ;
Pawl gynt yn dwyn Pêl ganto.

Arall or un ddull.

Gwna i ni yma ammod gwir wyd,
Garedig rhag trallod ;
Gwiw rywiog Wledd gyrr o Glod.
Gyfaill rhag dwys drom Gafod.

Y gwan yn ddau Sillafog, a'r Rhagwan yn dri Sillafog.

Arglwydd Dduw Culwydd yw celi, (Irglwydd,)

Am

Am Arglwydd un a thri ;
Arglwydd walch yr Arglwyddi,
Arglwydd Nêf yw 'n Arglwydd ni.

Arall or un ddull.

I'm gwaith nôd eilwaith nad elo, 'n ofer,
Wy 'n Ufudd Weddio ;
Duw na âd cyn ymado,
D' amau fyth er dim a fo.

Dyma Englyn unodl union yn Cyfochri trwy 'r Englyn, a hyn fydd Orcheft ; Ar Englyn hwn a wafanaetha yn lle Engraph o'r Ail yn wann, a'r bummed yn Rhagwann.

Gronyn o honyn henwyd, (eirionyn]
Gronyn a gywreiniwyd,
Gronyn gonyn ag anwyd,
Gronyn yn Gynrhonyn rhwyd.

Sion Brwynog i Golwyn Brithwyn.

Arall o'r un ddull.

Ceifio Dyfeifio difafwedd ('wyllys)
Lleifio mewn Cynddaredd ;
Treifio a gwneuthur trofledd,
Cleifio hyll clwy eifio hêdd.

Arall o'r un ddull ond bod y Gwan yn dair fillaf ar Rhagwan yn ddwy.

Oferwr herwr dihira, (gleiriach)
Clerwr gwael yntytta,
Bolerwr ai Bâl arwa,
Llerr o Wr un lliw ar Jâ.

Ac mae'r Englynion hyn yn dangos Cywreindeb Celfyddyd Prydyddiaeth, fef yn Cyfochri ag yn Cynghaneddu yn Bencerddiol trwyddynt.

Defcriad

Deſcriad Effeithiol Gruffudd ben rhaw. *Ac yn yr Englyn hwn befyd, y mae y gwan, yn yr ail ſillaf, ar Rhagwan yny Bummed Sillaf.*

Ni wnn Enw 'r hwnn Wr honaid, (i'r llu,
Nid er llês cywiriaid,
Un ai benn wrth y Fennaid,
Ac wrth y llawr a garth llaid.

Englyn ar Gwan yn dri Sillafog ar Rhagwan y ddau Sillafog.

Chwi yw 'r tair Cadair, chwi yw 'r Cun, o Nê
Chwi a wnaeth bob Elfun;
Chwi ydyw 'r Tâd Credadûn,
Chwi yw dau chwi ydyw un.

Arall or un ddull o rann Sillafau; eithr yn fwy Celfyddgar gynghaneddol, O Waith William Llyn *Bencerdd, i Ardd* Mathafarn.

Gardd gonglog wiwlog ag Eglwys, (ganglau
Gu gyd oglau gogydlwys,
Gwir-glaer glir glaer -glaear-glwys,
Gwir-glyd glynn gloyw glyd glân glwys.

Arall or un ddull.

Gwae holl Grêd trymed tromwedd, [am erchwyn]
Y Marchog o'r Gogledd *Tudur Aled i*
Cloi'r Bwrdd ar Clai ary Bêdd, *Tho. Salſbri o*
Cau *Lleweni* Cell *Wynedd.* *Leweni.*

Englynion ar Gwan yn beddir Sillafog, ar rhagwan yn un Sillafog.

Arglwydd Daiar wâr, Arglwydd ŷd, (a Gwellt)
Arglwydd Gwynt yr holl fyd;
Arglwydd Nêt ydyw hefyd,
Arglwydd i bob Arglwydd byd.

Arall

Arall or un ddull.

Canlyn Pladur Ddur ar ddant (y Rholdir)
Rhai Yſtwyth a'i gallant,
Eſmwythaeh i wâs methiant,
Englyn a Thelyn a Thant.

Arall or un ddull.

Anufydd dod nôd eniweidiol, (bwys,
Dan boen Cyſraith Fydol,
Beth ddaw o Ddyn ffallwyn ffol,
Anufydd i Dduw Nefol?

Dau Englyn Unodl union o waith *William Egwad* Athraw Pencerdd, y rhai y mae y Dr. *Sion Dafydd Rhys* yn ei goſod allan megys rhyw grynn gynnildeb, ac yn dywedyd i *Lewys Morganwg* goffau 'r cyfryw mewn Yſgrifen o'i Law ei hun, ac yn ei Lyfr ei hun; o herwydd bod yr ail Sillaf ar bedwaredd yn yr ail draich o'r Englyn cynta' yn cyd Odli a'r Gair cyrch. Ac hefyd yn cyd Odli yn y bedwaredd Sillaf o'r ail draich yn yr ail Englyn, Eithr ni welai Achoſion na Rheol yn y Byd iw chanlyn, na chywreindeb yn y peth y chwaith, yma y canlyn y ddau Englyn.

Criſt Coron a bron lle braeniwyd, (yn glâf,)
Croywaf braffaf, Brophwyd.
Croes Duw Ddelw Criſt addolwyd,
Côr llawn nerth Caerlleon *wyd.*
Doſparth Debeubarth dy hun, (mor deilwng,)
I'w Daroſtwng droſtun,
Dy far chwyrn difrewch arnun,
Dy rym oedd i dri am un.

O'r gaeth ac o'r drwſgl Gyhydedd y daw y Paladr, ac os yn yr wythfed Sillaf y bydd y Brif Odl, y Paladr y faif ar y Draws Gyhydedd Os yn y Nawfed fillaf y bydd yr Awdl, ar y Drwſgl ar gaeth Gyhydedd y bydd y Paladr, a'r pen diwaetha i'r Englyn y fydd ar y gaeth Gy ydedd fel y gwelſoch i o'r blaen.

Englyn Unodl Crwcca, a fydd pan fyddo'r Paladr yn ôl; neu ymlaen, a hynny yn union yn gwrthwyneb i Unodl uniawn, eithr or un fefur ag ef, ond bod y Gair hir yn ddiweddaf, ar ddau Air fyrrion yn gyntaf.

Cyd Ddofparth i Unodl union a Chrwcca.

Yr un Mefur fydd i Unodl union a Chrwcca, fef Deg fillat ar hugain i bob un o honynt, un ar bymtheg yn y Garrhir, a laith ym mhob un or ddau fyrrion, ac yn y Pennill hir weithiau y bydd yr Awdl gyntaf yn y feithfed fillaf, ac yna y Gair Toddaid tros yr Awdl a ddylai fod yn dair Sillaf, Os yn wyth Sillaf y bydd y Pennill hir, bydded y Toddaid yn ddwy Sillaf, Os yn Naw Sillafog y bydd yr Awdl Gyntaf, y Gair Toddaid neu Gyrch fydd raid bod yn un Sillafog. Ac felly y bydd mewn cwpl o Doddaid, ac yn y Pennill hir o Wawdodyn.

Neu fel hyn.

Englyn Unodl Grwcca a Ddofperthir ac a fefurir o'r un ddull ag Unodl uniawn, ac o'r un Golofnau, Ond bod y pen cyntaf yn y diwedd, ar pen diwedd yn y cyntaf ond na wafanaetha'r Gynghanedd Bendoll yn niwedd y Grwcca, fel y mae hi yn yr ail Fraich yn diweddu yn yr Unodl union; Ond rhaid ei Gynghaneddu o'r Gair Cyrch ar Gynghanedd unodl.

Neu yntau fel hyn.

Un Odl Crwcca, y Paladr o bedair Sillaf ar ddeg, fel Cywydd Deuair hirion; A'r diwedd fel Paladr Englyn Unodl Union, o un fillaf ar bymtheg fel hyn.

Dy feddgyrn wyd ufyddgall,
Dy Gwrt ni welad a gwall,
D' Arferau diau deall, (doeth barabl)
Dorriad abl dewr diball,

Arall

Arall or un ddull.

I'r Gangen lenn ar Lannerch,
A roddais yn arwydd ſerch ;
A chydynnau Brwyn o cheid annerch, (hardd
I glaertardd eglurſerch.

Ac or hen ddull drwſgl Anghynganeddol fel hyn.

Cyd ymwnel cyfyd bryd brys,
Yn llawen llewych yſtlys,
Lledryd Calon donn ef a'i dengys, (grûdd,)
Lliw blaen Grug geferys.

O'r ddull newyddaf.

Pen mur clod Paun mawr clau,
Perl addyſg pur ei Wleddau ;
Pendefig o'r brig îr brau, (digynnwr,
Phyſygwr hoff Seigiau.

I'r Dr. Puw o'r Rûg. J. R.

Arall or un ddull.

Dewis gadarn dwys gwedi,
Ddawn yn jawn oedd yno 'ni ;
Duwioldeb cûdeb codi, (i erill,
Daw ynnill daioni.

Arall or un ddull.

Llew am *William* llym eilwart,
Llwyddjaith bêr llaw Dduw i'th bart,
Llaw *Tomas* difâs a dart, (tiriaſol.
Llawn Raſol Llin *Riſiart.*

Englyn Gair neu Unodl Cyrch.

Englyn Unodl Gyrch a teſurir o Wyth Sillaf hugain, ſef ſaith Sillaf ym mhob un o i bedair Bann, neu Freichiau ; Ar Paladr fel Pennill Gywydd deuair hirion, a'r pen fel Awdl Gyhydd.

Neu fel hyn.

A thodl Gyrch, a fydd pan fyddo y ddeuair fyrr-

ôn yn gyntaf, ar Gair yn ddiweddaf; a hwnnw y tydd a'r Gair cyrch y ddaw; ac ni bydd ond Tair Odl ynddo, o Achos y Gair Cyrch. Ai Fefur yw wyth Sillaf ar hugain, fel faith ym mhob un o'r ddau bennill byrrion, a phedair ar ddeg yn y Pennill hir; ar fillaf Gyrch yn hwnnw, a ddylae fod yn y Seithfed Sillaf, a'r Sillaf a gyrcher a ddylae fod yn un Sillaf ar ddeg.

Neu yntau fel hyn.

Englyn Unodl Gyrch a fefurir o Wyth Sillaf ar hugain, yn hwnnw y bydd Pennill yn y Paladr o bedair Sillaf ar ddeg fel Cywydd deuair hirion, yn Unodli, a Phennill o Saith Sillaf yn ymrafael Odl a'r Penniil diwaethat; ar drydedd Sillaf neu 'r bedwaredd yn atteb ir Drydedd; ar Odl ddiwaethaf yn Unodli ar ddwy gyntaf, fel hyn.

Dy rann Fab dierwin fodd,
Doeth jawn Feiftr nid ô'th anfodd;
Doe filoedd i'th Dai felwas,
Dann dy Râs da jawn dy Rôdd.

Dy. rann. Fab. di-er-win. fodd.
Doeth. jawn. feiftr. nid, o'th. an-fodd.
Doe. filoedd. i'th. Dai. fel-was.
Dann. dy. Râs. da. jawn, dy. Rodd.

Arall o'r un ddull.

Gwir dda cewch geryddu cam,
Gwal ddwy Wynedd goel ddinam;
Gwir ddeliwch ag Urddoliant,
Gair Moliant a grym *Wiliam.*

Arall or un ddull.

'Madws i ni ymado,
Ar Byd trwch i'r Bywyd tro,
Oer ing borth Angau 'r Bêdd,
Mann da annedd mynd yno.

Arall or ben ddull.

Diboen Ferch goel Godebog,

I Grêd y peraiſt y Grôg ;
Ugain trichant a'i wrantu,
Oedd oed Jeſu Dduw Dywyſog.

Arall or hen ddull.

Hunydd hirloyw ei hyſtlys,
Gwymp ei llun yn ei llaesgrys ;
Gwynnliw Ewyn.gwen donn jawn,
O Ddwfr eigiawn pan ddengys.

Arall or hen ddull yn drwſcl.

Er a ſo eiſiau Dodrefn,
Eſgid ddu a Bottas Leſn,
Mwy na'r Fwyalch iw hên Nŷth,
Ni ddel ê byth dracheſn.

Nid wy 'n rhoddi un o'r rhai hên hyn ar lawr o rann Athrawiaethu neb î wneud y cyfryw canys oni wn'ant well na'r rhai'n, ni thâl y Swydd mo'i Gwaſanaethu.

Yngbylch Englyn Proſt Cyfnewidiog, a'i Pherthyn-aſau.

Proſt Cyfnewydiog a newydia derfynau, ei bedwar Braich, yn Odlau Ymrafael, bob un ar ei phen ei hun ; ac a Feſurir o wyth Sill-af ar hugain ; ſef ſaith ym mhob un o'r pedair braich, ac ar y Gaeth Gyhydedd y Coloſnir, ymrafaelia Odlau y Bogeiliaid ac a geidw 'r ydfain fel hyn.

Fawr boen ddioſer beth,
A gwir lês agorai Lith,
Nid oes ail Fugail o'i fath,
A thra fo dydd ni bydd byth.

Proſt Cyfne.

Fawr. boen. ddi-oſ-er. beth.
A. gwir, lês. a-gor-ai. Lith,
Nid. oes. ail. Fug-ail. o'i. fath.
A. thra. fo. dydd. ni. bydd. byth.

Ed. Morys i'r Parchedig Mr. Rhys Ffowcs, D. D.

Croes Gyfnewydiog gorcheſtol a Chadwyn gudd ynddo.

Aurwy ddolen aur ddeuled,
Ar wedd Eilon, rudd waywlid,
I râdd Alwen, rwydd Olud,
O Urddolion, ar Ddwy wlad.

Neu fel hyn, yn Gadwynog hannerog, ac yn Gyfnewydiog hannerog.

Cadwynog hannerog.

Aurwy ddole	Aur ddeule			
Arwedd Eilo	N	Rudd way li	D	
I râdd alwe		rwydd Olu		
O Urddolio		Ar ddwy-		
		wla.		

Cyfnewydiog hannerog.

Un arall o'r ddull newydda yn fwy Celfyddgar, ac a Gynghanedda Wyneb yngwrthwyneb ar y Groes rywiog Gynghanedd, fel hyn.

O'i Ryw iredd Aur wryd,
Fe 'yrodd fwy i wared;
Digerydd ei Deg wirod,
Wawr Ddwyrudd Arwydd wiwrad.

Yngwrthwyneb fel hyn.

Aur wryd o'i ryw iredd,
Fwy i wared fe yrrodd;
Ei deg Wirod digerydd,
Arwydd wiwrad wawr ddwyrudd.

Fel hyn.

Oi ryw ire	dd	Aur wry
Fe yrro		Fwy i ware
Digery		Ei Deg wiro
Wawr ddwyru		Arwydd wiwra

Nerth yw dy rann wrth dy rym,
Acth yn dy râs a'th wayw 'n drom.

Aethoſt jawn lwyth Yſtanlam,
Lle nid ae y, Llew na dim.

Tudur Aled.

Proſt Cyfnewidiog o chwe Braich neu Bann, y rhai'n ſydd yn Cyfochri ac yn croes Gynghaneddu ſwya' i gyd.

Gwae ni oll golli y Gwr,
Gan Angau gwrs gwŷn ing gûr,
Gwall dig i bob gwyllt a gwâr,
Gladdu Sant Ymgeledd Sîr,
Gwenwyn glâs gwae ninau'n Glêr,
Cwall naws dig golli 'n Stôr,

Gruffydd Hafren i Lewys Blaenau Eſq;

Englyn yn y dechrau yn terfynu mewn Dipthong Leddf, neu Bengamleddf, ar diwedd yn terfynu mewn Dipthong Dalgron fel hyn.

Pwy a ſaif wrth y Laif loyw,
Aniffrwyth yn Nyffryn Maiw,
Gwas a want hirwann a gwayw
Llyſtant o Nwyſiant yn wayw.

Nid yw hwn nag Englyn Unodl union na Phroſt ychwaith yn jawn.

Arall o'r ddull ganolig.

Rhi dau allu rhoed eirw llathr,
Rhoed oerllam a rhyw dirllethr,
Rhew diarlloes rhwyd oerllithr,
Rhodri Jarll Rhauadr eurllythr.

Proſt Cyfnewidiog o bum Braich.

Daw yn ôl Jeuengctyd yn Wr,
Daw Plant a llawn chwant a chur;
Duw a ro 'r Twſ rhaid hau 'r Tir,
Dyna ſydd o dan y Sêr,
Ond un peth rhan Duw ein Fôr.

Ed: Prys.

Arall o chwe Braich.

Llawn yw 'r Tir lle llenwir llid,

Llawn Rhwyſg Beilch llyna y rhôd,
Llawer rhai a lloriau 'r hûd,
Llwau mawr a rhoi llym wâd, *Ed: Prŷs.*
Llwgr a brôch hyll a Gaîr brŵd,
Llwyra bai mor ddall yw 'r bŷd,
Proſt gyſnewidiog yn diwedd mewn Lleddf.
Cae a gerais dawn gais Doe,
Cutydd cotrydd Rodd Ertai;
Yn eilgroes i'm Oes a mwy,
Anwyſgrair cowain yw 'r cae.
Arall or ben ddull.
Y Wraig o Wragedd annwin,
Ni ddôt i'th Dir nag i'th dreſn,
Hyd ynghanol Dydd diofn,
Pan fwy am Llaw ar fy llafn,
Un arall or ddull newydd.
Syched ac Yfed o Gorn,
Moddion chwith a meddwi 'n chwyrn,
Tyngu Rhegu ſathru ſarn,
Ac oſgo Gwr ynwyſg ei Gern.
Arall or un ddull.
Y Tŷ lle mae Merched têg,
Yn wir a welir yn wâg,
Draenen Amen draw 'n y Mŵg,
A Nŷth Brân yn eitha 'i brig,
arall
Pum Nerth it ein Pennaeth pur,
Pum power gwych pwmpa 'r Gwyr,
Pum ffrwyth Tywyſoglwyth hyd Sêr,
Pum Llŷs deg pum lliaws Dir.

Bellach ſonnir am Broſt Cadwynog neu Cadwyn Odl yr hwn a teſurir o'r un hyd a'r Cyfnewydiog, ac a Gadwynir yn Groeſdraws y gwerſi neu 'r Bannau, neu ei a gadwynir o'r Bann gyntaf ir Drydedd Bann, ac unrhyw ſillâtau ar y Cydſeiniaid; ar Bann cyntaf yn Unodli ar Drydedd Bann; ar Ail Bann yn Unodl a'r Bedwaredd Bann fel y mae hwn. Mae

Mae Rhŷs heb gael mwy o'r hûn,
Mae 'r genedl ar mawr gwynan ;
Mae 'r Beirdd er mwyn Marw bun,
Mewn Llewyg am Wenllian.

Mae. Rhŷs, heb. gael. mwy. o'r. hun.
Mae'r. ge-nedl. a, mawr. gwyn-an ;
Mae 'r. Beirdd. er. mwyn, Marw bun,
Mewn. lle-wyg. am. Wen-llian.

Yma y mae Odlau yn Cadwyno megys yn groes ; Canys Proſt Cadwynog a fydd pan tyddo 'r Awdl gyntaf i'r Englyn yn Atteb i'r drydedd, a'r Ail yn Atteb i'r Bedwaredd.

Arall yw bwnn.

Dy Roddion wyd o Radd Nudd,
Dinam ŷnt pob dŷn a'i mêdd,
Dy Win i fil dyna ſudd,
Diwarth Fab dy Aur a'th Fêdd.

Dy. Rodd-ion. wyd. o. Râdd. Nudd,
Di-nam. ynt, pob. Dyn. ai. medd ;
Dy. Win. i, fil. dy-na. ſudd,
Di-warth. Fab. dy. Aur. a'th. Fêdd.

Arall or ddull newydd.

Dewr oedd wrol drwy ddyrus,
Da gwnn hyn di gynhenus;
Dyna rann dawn yr Ynys,
Doniog gwiwddawn Dyn gweddus.

Arall or un ddull.

Arglwyddi cawn eurgledd coeth.
Argoel oedd or Ogleddjaith ;
I roi gwleddoedd wr glewddoeth,
Arglwydd walch hir o gloddjaith.

Arall o'r ddull newydd.

Hinon deg hwn yw y dydd,
Llon jawn Haf yn llawn o hêdd,
Bu ran ſerch ein Brenhin ſydd,
Wiw enwog glod weinio Clêdd.

Englyn

Englyn Prôſt Dalgron Gyfnewydiog a derlyna weithiau mewn pedair Bogail Ymrafael, weithiau mewn un Gydſain o ymrafael Fogeiliaid, ac weithiau mewn Dipthong Dalgron. Englyn Proſt Leddf Cyfnewydiog a derlyna weithiau mewn pedair Lleidf Ddipthong Ymrafael, ac weithiau ym mhedair Ddipthong Ymrafael ac un Gydſain, fe a derlyna weithiau mewn Talgron gadwynog; ac weithiau mewn Lleddf gadwynog.

Proſt Dalgron gyfnewidiog yn terfynu mewn pedair Bogail Ymrafael fel hyn.

Duw Jôr ſy mhen cyngor cu,
Fy nghalon tra unjon tro;
I ddilys jawn addoli,
Dy Sabbath di ſy beth da.

Proſt Dalgron Gyfnewydiog, mewn Llioſſain neu Ddipthon Dalgron fel hyn.

Angharad hoyw Leuad liw,
Y Ganwyll Aur gwen ei Llaw,
A Seren Gwlad oes ran glew,
Eitha ei dawn o Waith Duw.

Lleddf Broſt Gyfnewidiog yn terfynu mewn pedair Lleddf Ddipthong, neu Lioſſain Ymrafael, fel hyn.

Gweles ſann cynnes mewn Cae,
Gyſgod i Rianod rai;
Gywira clo i garu clau,
Gwiwlwydd jawn ſawl Gwlêdd neu fwy.

Lleddf broſt Gyfnewydiog yn terfynu mewn pedair Lleddf Ddipthong Ymrafael, ac yn yr un Gydſain ſol hyn.

Llawen

Llawen dan Glaerwen lenn laes,
Lleddf olwg gloyw amlwg lwys;
Llath aur lun melyn molais,
Llaryaidd Foneddigedd foes.

Proſt Gadwynog Dalgron a gadwynir fel hyn.

Yſpys y dengys yn dêg,
Amſerau borau heb ŵg,
A Phrydnhawn arw iawn rêg,
Y Glaw o Darth goel ai dwg.

Lleddfbroſt Gadwynog a gadwynir fel hyn.

Mewn Aenles cynnes y caid,
Gwn o barch y Gwîn a Bwyd,
Cytan hoff lês Ceſn a phlaid,
Giniaw yr Llys gan Wr Llwyd.

Proſt o bum Bann a genir fel hyn.

Yn Nwytus heb annefod,
Yn Fynach un i tyned;
O'th iawn Qbaith yn abad,
Yn Eſgob oni wiſgid,
Ac yno'n Bâb gwynn ein Byd.

O bymtheg ſillaf ar hugain.

Proſt Chwe Bann a genir fel hyn.

Dy Lu mawr dwy Wyl am un,
Dwy Went oll dwy Waun y tyn,
Dwy Faelor y doe filiwn,
Dwy Bowys i'th Dai buan,
A dwy Wynedd a'i Dynion,
A'r Dehau oll ar dy Win.

O ddwy ſillaf a deugain.

Proſt Wythbann ym mha un y Cyfanſoddwyd yr holl Fogeiliaid fel hyn.

Dechrau rol, nid chwarau Cat,
Dyro wayw 'Sgwar drwy Yſcot,
Dyn a duc wyd a dynn y cwt,
Digied neu ſorred un ſut;
Dy Râs Edn Domas dy dyt,

Un ar bymtheg [illegible] deuga[illegible] ino S[illegible] llaſ[illegible]

Dy blaid chwyrn dwblwyd a chwit,
Dyro Sias hir dros y Set,
Dros oll Duw a ro hiroes yt.

Rhys Nantmor i Syr *Rhys* ap *Thomas*.

Arall o Chwe Bann 42 *Sillaf.*

Bleddud a wnaeth benaeth budd } *Dafydd Llwyd*
Yr Enaint yn dda Rinwedd, } *ab Llewelyn ab*
Y Dwfr praff diſai o'r pridd, } *Gruffydd o*
I gael adwyth o'r Gwledydd, } Fathafarn.
Bendigaiſt hyd pan dygodd,
Er jechyd i'r Bŷd y Bâdd.

Proſt Cadwynog chwe Bann.

Tir Pen Gwern hir pen grawn hâd,
Tref Gaſtell tyrfa ac Yſtod,
Tir Moſtyn yw 'r Term waſtad,
Tai Gloddiaith têg le eiddod,
Tref Garnedd oleuwledd Wlâd,
Tai 'r Jeirll glan Tyrrau 'r holl glôd.

Y mae pum math o hen Englyn eraill o'r hên Ganiad, y rhai nid ydynt ond Ofer Feſurau; ac ni's arferir mo'nynt yn y Pedwar Meſur ar hugain, etto wrth yſtyriaid y bydd i rai darro wrth y cyſtryw mewn hen Yſcrifennadau, fe welwyd yn dda roddi ar lawr rai Engraphau a Doſporthiadau o honynt hwythau hefyd. Sef,

Englyn Milwr,
Englyn Cildwrn,
Englyn Garrhir,
Englyn Pendrwmm,
A Thrybedd y Mynaich,

Englyn Milwr ſydd iddo 'n amla dair braich yn Cyd Odli, a laith Sillaf ym mhob braich; ef ai i gyd ac a genir fel hyn.

Cyn-

Cynddelw cadw dithau y rhyw, *maes Rhiwedog*
Ar a ddel yma heddyw; *wedi darfod am i holl*
Cudeb am un Mab nid gwyn, *feibion ond Cyn-*
Arall o ddull newydd. *ddelw.*

Llowarch hen mewn llewyrch oedd,
Flaen addyfg o Flynyddoedd,
Mawl i'r Cwr er Mil ar goedd,
Ac yn bedair Braich o 28 Sillaf. } *Llywarch*
Mo'r ſwrth y ſyrthiodd March Paen } *hen i Farch*
Ym Mariandir grô dir graen ; } *Paen ei fab*
Efionydd mynych Malaen, . } *pan ſyrth-*
Lle ni bo mign e' fydd Maen. } *iodd yn y*
} Fionydd.

Englyn Cildwrn a feſurir yn 18 *Sillaf fel hyn.*
Hybarch yw Mab y Marchog,
Yn Aur yn Arian Golerog,
Torchog.

Neu fel hyn.

Englyn Cildwrn a feſurir o bedair fillaf ar bymtheg, ſef Paladr Englyn Ymlaena' o un fillaf ar bymtheg ; a thair Sillaf yn ol, ac yn unodli ar paladr, ac yn Cynghaneddu yn dair fillaf, megys diwedd Gorcheſt y Beirdd ; fel hyn.

Rhuddhau 'r Pum Llu o'r poen a wnai Fair,
Forwyn wyry yn hoen ;
Rhann yr Oen, *Gochel y Surdoes.*
Neu o ddull Newydd fel hyn.
Impio er huno o'r henaidd Gyffion,
I gaffael ffrwyth peraidd ;
Or un Wraidd.

Y mae eraill o Ofer feſurau, megis o anian Cildwrn, fel y mae Cyhydedd hir a'r Baladr Englyn, yn Unodli ar Paladr, fel hyn.

Oen Duw i wyry' Fair fun dal, am ir Wrâch,
Erchi bwyta 'r Afal,
Rhingyll yr Angell, } *Rhag Ofn dial.*
Yn dwyn Gair dan gêl,
Gyfiawn dawel,

A

A'r Baladr Englyn drachefn, Gorcheſt y Beirdd a ſelurir yn gildyrnaidd; nid un ei Ddoſparth, ond un ei hyd, ac yn Unodl ar Paladr, fel hyn.

Ynial ſu 'r dial roi Dŷn [mawr werthiog]
I'w werthu iw Elyn;
Priſſiwr preſſen,
Ein Ponb a'n Pen,
Ym Mynwes Pren.
} mwy ni's prŷn,

Englyn Garrhir.

Englyn Garrhir a fydd ar Feſur Englyn Unodl union, ond bod Pennill o Gywydd Deuair fyrrion rhwng y drydedd Awdl ar Olaf, a hwn fydd bedair ſillaf ar bymtheg ar hugain o hyd, fel hyn.

Dûr wyd a dwy Rwyd dir rhwydd, (gwir wadn,
Garwden yr Allwydd,
Dŷn gwridog yn dwyn gwradwydd,
Diffaith Eulyn diflas Englyn,
Datydd Emlyn gelyn gwŷdd.

Pennill o Gywydd deuair fyrrion ydyw 'r Arr.

Arall.

Da gweddai ni 'n dau ſis Mai mwyn, (eur wawr
I Orwedd dan y Llwyn,
Myſi yn Brydydd hydd hirdrwyn,
Chwithau 'n weddus fwyn barablus,
Hir ber ſwythus Dreſnus drwyn.

Arall.

Da y gweddau ni 'n dau yn dwyn Clôch (ynghyd
Gwyn dy fyd Gwen yw dy Foch,
Dydi yn Brydyddes beiſgôch,
Minnai 'n Adda gynffon laeſa,
Anwar Dweca gamma gôch.

Arall.

Llewelyn yw 'r Dŷn, wyr dewiniaw (Bŷd,)

Ap

Ap Sion bydd i'n Siriaw,
Llyna Broctor yn lluniaw,
Llwyr barch Llyr bais, lle y try llai trais,
Llawena ei Lais Llyna'i Law.

Englyn Pendrwm.

Ynys yw pen Rhys yn Nhrwyn (y fforest,)
Y fferen a dytr swyn,
I'n pennau rhoed Enw pen Rhys,
Ymhob Llysac ym mhob Llwyn.
} *Sef Awdl Gywydd ar Balads Englyn.*

Fel arwain Dwyrain a'r Darian, (Kuddaur,)
Ar weddaist Wlâd Forgan,
Emwnt teilwng mewn Talaith,
Mae arnad waith Môr neu Dân.

Trybedd y Myneich.

Trybedd y Myneich a tesurir o Ddeg fillaf ar hugain o hyd; set Tri Phennill byrrion o chwe Sillat bob un, ag Awdl Gyrch o saith Sillat tel hyn, a hên tesur gorcheftol yw.

Nid oedd un Nodai ddâr,
Ei Dai Gwin oed iw gâr,
Ni chair un uwch yr Ar,
Dŷn a bâr yn Dân o'i ben.

Arall o naw fillaf bob Braich, sef un ar bymtheg ar hugain i gyd.

Pan aeth y Brenhin i'r Cyffinydd,
I osod un dydd a'i Ystondart,
Gora u tri o Went i guro trin,
Wyrion ei Edwin o ran Edwart.

Bellach ni a roddwn heibio yr hên Ofer Gerddau anarteredig yn y 24 Mesur ar hugain presennol, gan fyned ym mlaen at y Cywyddau ai hamrywiau fel y canlyn.

Cywydd deuair fyrrion.

Cywydd deuair fyrrion a tesurir o wyth fillaf, tet pedair ym mhob Bann, neu 'n well tel hyn.

Cywydd

Cywydd Deuair fyrrion a ſeſurir o Wyth Sillaf, a hynny o ddwy Fraich ; a phedair Sillaf ym mhob Braich neu Bann, ac a gynghaneddir bob pedair Sillaf, a'r ddwy Odl neu'r ddau ben yn Atteb bob un iw gilydd, un yn rhannedig, a'r llall yn gyſanſoddedig, a hon yw 'r ferr gyhyddedd ; ac a genir fel hyn.

Aurawg Uriad,
I'th rhwyſg aeth rhad,

Aur-awg Ur-iad, } hŷd y Sillafau.
I'th rhwyſg, aeth, rhâd. }

Aurawg * Uriad,
I' th R h wyſg * ae th R h âd,



Arall.

Ei Fyd ai fodd,
Arfod Eurfodd,

Ei fyd ai fodd,
Ar fod Eur fodd,



Arall

Arall.

Dŷn wyf dan ja,
Difyd, Efa.

Y mae i mi;
Jân iw, enwi.

Gair clŏd Gwr clau,
Geirwir gorau.

Y Gwr gwirion,
A'i friw 'n ei Fron.

Ei farn arnam,
O Fair ei Fam.

Arall.

Dewr hil fil Fur,
Didarf, Dudur,

Arall o'r hen ddull.

Eiliw Gwennig,
Tonn am Gerrig,

Hardd deg Riain,
Hydwf lwyfgain,

A digon yw hyn o'r hên Engraphau, oni bae 'u bod yn fwy Celfyddgar.

Cywydd deuair hirion.

Cywydd deu air hirion a fefurir o bedair Sillaf a'r ddeg; faith ym mhob un or ddau Air hirion, neu ym mhob un o'r ddau Fann yn Atteb iw gilydd; un yn rhannedig, ar llall yn gyfanfoddedig, a phob un o'r Ddwy Fraich, yn cydodli, ac a Gynghaneddir ar y Gaeth gyhydedd, fel y mae hwn.

Y mae i mi am y Myd,
Wyneb un yn ei benyd.

Y. mae. i. mi. am y Myd, } hyd y Sill-
Wy-neb. un. yn. ei. be-nyd. } afau.

Y mae i mi * am y Myd,



Wyn eb un * yn ei be nyd,



Dau mwy Duw mawr di ai medd, } *Wmffre*
Drwy Gariad o Drugaredd. } *Dafydd*

Ni thrawyd gnith ar Ewin, } *ab Ifan.*
Na bae Lais gwell na blâs Gwin. } *T. A.*

Rhyw Saergamp rhoi ais hirgoed, }
A rhengau Calch rhwng y Coed, } *T. A.*

Tyred frigin y Teirjaith, }
Awr o bydd modd or Bedd maith, } *W. Ll.*

Onis doi dair Einioes Dâr, }
Yn jach hirddgamp na Cherddgar. } *W. Ll.*

Pôr

Pêr gwiwnerth, pêr ac uniawn,
Puw Ran doeth, pwy o'r un dawn? } *J. R.*

Hen Engraph.

Y March ffurf archgrwn fyrr flew,
Llyfn Llygadrwth pedreindew.

Cywydd Lloſgyrnog.

Cywydd Lloſgyrnog a feſurir o Ddau Bann neu Fraich, neu o dri, neu o bedwar, o wyth Sillaf bob un, o'r Bannau, ac a Lloſgwrn ſaith Sillafawg o hyd; ac yn unodli pob Lloſgwrn drwy 'r Cywydd, neu o bennill Lloſgwrn, ac wrth ddiwedd Awdl y Lloſgwrn Bennill y cynhaſir y Cywydd oll: a Gair cyrch rhwng y Pennill a'r Lloſgwrn.

Neu fel hyn.

Cywydd Lloſgyrnog a feſurir o ddau Bennill byrrion; ac wyth Sillaf ym mhob un, neu bedwar os mynnir fel Cyhydedd Ferr, a phennill byrr yn ol o Saith Sillaf, ac yn Unodl drwy 'r Cywydd: a hwnnw yw y Lloſgwrn; Ar Drydedd Sillaf or Lloſgwrn a fydd Unodl ar Pennill hir, fel yngair Cyrch.

Neu fel hyn.

Cywydd Lloſgyrnog a feſurir o Ddau Bann neu Dri, neu bedwar, o Wyth Sillaf bob un, yn atteb iw gilydd yn unodl ar y Drawsgyhydedd: a Phennill Lloſgwrn yn ol o ſaith ſillaf ar y Gaeth Gyhydedd: Ai berfedd yn atteb i ddiwedd y Pennillion, a diwedd hwnnw yn Arwain yr Awdl, fel hyn.

Y mae goroph em a garaf,
O gôf aelaw ac a folaf;
O choeliaf gael ei Chalon.
Y. mae. gor-oph. em. a. gar af, } *hyd*
O. gof. ael-aw. ac. a. fol af. } *Sillaf-*
O. choeliaf. gael. ei. Chal-on. } *au.*

Arall.

Llew gwâr Moſtyn Lloegr rymuſder,

Llu a'th ddilyn Jarll i'th weler,
Llarig Aliwn Llew Aur Goler,
Llawn ddwyfter llonydd waſtad.

Arall.

Mawr jawn y bu 'Meirion heb wâd,
Dawn eu aruthr yn dwyn Cariad,
Drwy 'r ddwy Wlâd dro Urddolwych,
Llawer am wir lſwyra y modd,
Dewr ei addyſg da a roddodd,
Dantonodd do yn ſynych.

O ddau Fraich befyd fel hyn.

Yr hên Ddaiar hon a dduodd,
Y gloyw Awyr a ddrwg liwiodd,
Y grynodd pan Goroned.

O dair Braich fel hyn.

Arwydd graendoſt ar wŷdd grwndwal,
Elw am eurſerch *Wiliam Marſial*,
Ar Amcaniad oer i'm cynnal,
Heb un dyſal Bendeſig.

Arall o Bedair Braich.

Oll awn ir Gaer y llanwer Gwîn,
I glôs hirddol Eglwys Hyrddin;
Y Plâs y ſydd fel Powls a Sin;
Pantri 'r Fâl uwch Pentre 'r Felin,
Aber dilin Aur Dolydd.

Oll awn. i'r. Gaer. y llen-wir. Gwin.
I. glos. hir-ddol. Eg-lwys. Hyr-ddin;
Y. Plâs. y. ſydd. fel. Powls. a. Sin.
Pan tri. 'r. Fâl. uwch. Pen-tre. 'r. Fe-lin,
A-ber. di-lyn. aur. Dol-ydd.

Awdl Gywydd.

Awdl Gywydd a feſurir o bedair Sillaf ar ddeg, ſef ſaith Sillaf ym mhob Bann, a gair cyrch yn nechrau 'r Ail Bann; yn atteb ir Awdl gyntaf; ar Awdl ddiwaethaf yn Ymraſael; a honno yn Unodl drwy 'r Cywydd, fel hyn.

Un

Un a dal y Nadolig,
Obr diddig i Brydyddion,
Ac a brŷn ddeg o bai raid,
Llongaid fel y gollyngon.

Arall or un ddull.

Llwyth Treſor Llu waith trafael,
Llew Ebrwydd hael llwybraidd hêdd,
Llwyth Edwin oll ith hadyd,
Llawn dywys Yd llin hyd Lêdd.

Un o'r ben ddull.

O gwrthodi Liw ewyn,
Was diſelyn gydynnau,
Yn ddi Wladaidd da 'i Lên,
Ai Awen yn ei Lyfrau,
Cael o honot Aradr gaeth,
A ſo gwaeth ei gynneddfau.

Toddaid.

Toddaid a feſurir o bedair Sillaf ar bymtheg, a dwy Awdl unrhyw yn y Pennill, a Gair Toddaid megys cyrch Englyn Unodl union yn terſynu yn y ddegfed Sillaf, a'r Bann olaf o'r Pennill Toddaid bid yn naw Sillaf byth, a Thoddaid a ddichyn ddyfod allan or gaeth gyhydedd, ac or Drwſc! gyhydedd, ac o'r gyhydedd hwy na hir, ſef yr hwyaf.

Engraph.

A fynno eſo a fydd (yn ei Frô.)
Ar hyn a fynno na bo ni bydd.

Ac hef yd mewn Toddaid os yr Odl a derſyna yn y ſeithfed Sillaf, bid y gair Toddaid yn dair Sillaf, os yn yr wythfed y terſyna, bid y gair Toddaid yn ddwy Sillaf, ac os yn y nawfed y terſyna, bid y gair Toddaid yn un ſillaf,

Ac yn ol eraill, Toddaid ar ei phen ei hun a feſurir o Ugain Sillaf o hyd fel hyn.
Hanner a dynne 'r Adeiniog Wiber)

Ai roi wrth hanner yr Arth Ewinog.

Ac yn gymmar iddo.

A'ch enwi 'n neſaf yn erchwyniog, (Gogledd,
Yr gŵr o Wynedd yn Aur goronog.

Arall o bedair Sillaf ar bymtheg.

Claear yw Daear duedd, (Llanhaiaf,)
Caer yw Urddaſaf crair ddewiſedd.

Arall or un ddull.

El'ſbeth Aur lowaeth lewyrch, *Salbrieid*,
O Union ganaid wen jawn gynnyreh.

Gwawdodyn byrr a ſeſurir o ddwy ſillaf, ar bymtheg ar hugain, ſef dau Bennill byrrion o naw Sillaf bob un, ac un hir ſel Toddaid yn ol, o bedair ſillaf ar bymtheg ſel hyn.

Lle bu 'r Gaer Faen llwybr gwyr a ſynnai,
Lloegr o Dir Ffraingc yn Ieſaingc a wnai,
Llew blin ym Myddin Maeddai, (Wyr arſog,
Llym Farchog enwog a ddigonai.

Lle. bu. 'r. Gaer. Faen. llwybr. gwyr. a. ſyn-nai.
Lloegr. o. Dir. Ffraingc. yn. Jeſangc. a. wnai.
Llew. blin. ym. Mydd-in. Maedd ai. wyr. arſog
Llym. Farch-og. en-wog. a. ddigonai.

Naw gwlêdd i th gaerydd beunydd heb wâd,
Naw Cant ai rhagor cawn ai trigiad,
Naw canſaig oedd aig ddygiad, (aml ſenſwn,]
Naw Bord a welwn heb awr doliad.

Arall or un ddull.

Ni bu ei ſwynach neb o Fonedd,
Nag un burach enwog jawn beredd,
Na'i lanach haelach hyd Heledd, Yſpys,
Na wybu 'r Ynys neb o'i Rinwedd.

Arall.

Dyma Lys eilmodd i Deml *Salmon*,
Neu gaerau *Rufain* goror Aton.
Menychlys a Llys *Lleiſion*, (lydd gyſuwch,
A Phreutur ſy uwch na Phreter *Sion*.

Arall

Arall or un ddull.

Merion Coed perion lle i cad puredd,
Moſtyn am arial moes dwyn mawredd,
Maelgwn i'th rifwn a'th ryfedd (towart)
Mawr ddart Mab *Rhiſiart* ymhob rhyſſedd.

Gwawdodyn hir.

Gwawdodyn hir a feſurir o bymtheg Sillaf a deugain o hyd, ſef pedwar o Bennillion byrrion o Naw Sillaf bob un, a Phennill o Doddaid yn ol o bedair Sillaf ar bymtheg, fal hyn.

Engraph.

Rhedaf rhad breiſgat, lle rhed Brwyſgion,
Rhandai rhoed oſſai i'r rheiduſſion;
Rheol Rhys deol rhyw weſdeion,
Rheidweſt rhod llueſt rhadau Lleon;
Rhydd glôs rhad agos Rhi digon, (Rhyddlys,)
Rhys rhyw fan Yſpys Rhufain Oſpion.

Rhed-af, rhad. breis-gat. lle. rhêd. Brwyſg-ion.
Rhan-dai. rhoed. oſ-ai. i'r. rheid-uſ-ion,
Rhe-ol. Rhys. de-ol. rhyw. weſ-dei-on.
Rheid-weſt. rhod. Llu-eſt. rhad-au. Lle-on.
Rhydd-glôs. rhad. ag-os. rhi, di-gon. rhydd lys.
Rhys. rhyw. fan. yſp-ys. Rhu-fain. Oſbion.

Arall or un ddull.

Mawr ddwyn pennaeth a myrdd yn poeni,
Mwy argoel adwyth mawr galedi,
Marw o Rowland mor oer yw Eli,
Meth ac ing hwyr ymaith gynghori,
Maith a diledjaith i Dylodi, (gwlad)
Marwol oes Ynad mawr 'luſeni.

Arall.

Rhodio deddfau wr hy dedwydd fedd,

Rhoes jawn hoff ferwddyſg Rhys a'n ffordd iodd
Rhoſyn dewisgwbl Rhys a'u dyſgodd,
Iaith wâr ddianwar dda unwedd, wiwdde,
Iaith yw hi rhife, rhai 'n Iaith rhyfedd.

Gwawdodyn hir.

Iaith od ydyw, a Iaith Odidog,
Iaith dda hoywlan, a Iaith ddihalog,
Iaith dda riwiau a Iaith dda rywiog,
Iaith hynoda, a Iaith hen oediog,
Iaith wiw nid anwiw, Nod enwog, ei gwedd,
Iaith yw dda osgedd, Iaith ddiysgog.

Byr a Thoddaid.

Iaith hylwydd arwydd euraid, Iaith barchus,
Iaith berchen cadarnblaid,
Iaith yw hon hyt Iaith Henafiaid,
Iaith achosion Iaith a cheisiaid,
Iaith Ystyriol, Iaith iw ystyriaid,
Iaith ddifrifol Iaith dde trifiaid, (far,
Iaith hêdd werth rhyfedd wrth rhaid, Iaith ddi-
Iaith gynnar Iaith ganaid. *Hir*

Hir a Thoddaid.

Iaith hoffaidd heneidd, Iaith effeith hynod,
Iaith hynaws gydfaws, Iaith hoenus gydfod,
Iaith hylaw yftwyth, Iaith oleu waftod,
Iaith hafeidd ddofeidd, Iaith hoywfodd ddyfod,
Iaith erfai ddifai Dafod, fef y hêr.
Iaith hoywdda Gomer, Iaith haeddei gymod.

Rys Morgan o *Langatwg* yn *Morganwg* a'i Cant.

Hên gynnildeb ar Gywydd wyneb yngwrthwyneb, neu Gynghanedd ddychweledig.

Enaeth y Fran ei Fyth fry,
Ar Wylan, ar ei Weiy.
Y Maſtr Rys, am yſtor draw;
Wyd a'i Ynys, o'i danaw.
Hudaw ymaith, am Domas;
Onid ae'r Iaith, yn dy, Ras.
Ufyddaſwyd, Jor y ddwyſwydd,
Ai droi i gyd, yn Dir gwydd.
Bwa Urien, yn bazod:
A faeth yn wan, feuthai nod.
O Bowys, o bu Biaſ:
O'th gael Rhys, aeth golau'r Haf.
O Drenewydd, drwy'neall:
Yno dydd, i wann a dall.
Ef a aeth had, o Fathau hen:
A chariad, o Ferch Urien.
Jor yw'ch Tad, ar uchod dwr.
Medi uoſiad, Dineſwr.
O thor zwyd ailt, o'th ryw di:
Bid ieirailt, heb eu tozzi.
Flamin yns d'adael, yn Dewddwr:
Medi dy gael, yn oed gwr.
Bid ywch chwech: bywyd y chwaith;
Bed clech, heb y Dalaith.

Beiau ac Anafau Cerdd Dafod, gwahardddedig iw Canu, nid amgen.

1. Twyll Odl,
2. Gormod Odlau.
3. Prôſt i'r Odl.
4. Gweſt Odl.
5. Twyll Cynghanedd,
6. Cam Oſodiad,
7. Dybryd Sain.
8. Trwm ac Yſgafn.
9. Lleddf a Thalgron
10. Crŷch a Llyſn.
11. Ymſathr Odlau.
12. Garllaes neu Garnoddiwes.
13. Tîn Aap.
14. Rhy debig.
15. Torr Meſur.

Y mae amryw feiau eraill, ſef.

Gwŷdd ac Abſen, Clod a Gogan ynghyd. Canamſer: Unig a Lliolog: a llawer o feiau mân eraill y rhai ydynt Waharddedig iw Canu mewn Cerdd Gelfyddgar. ſef mewn Cywydd ac Englyn.

Dangoſiad beiau ag Anafau Cerdd Dafod.

1. Twyll Odl; yr hwn ydyw y penna o'r beiau, a geir i adnabod wrth dreiglo Geiriau, a'i rhoddi yn eu hunion leoedd cyfleus, ac a genir fal hyn.

Mae arnaw hir fraw ar frys,
Draw ag oſgedd draig eſgus.

Treigliad Brys, Elgus, yw Bryſſio, Eſguſion.

2. Gormod Odlau a fydd pan fo gair unrhyw a'r Odl p'le bynnag y byddo ai yn mlaen ai yn ol yr orphwysfa, neu yn yr orphwysfa mewn Cynghanedd groes draws neu Sain, neu luſg.

Mewn Cynghanedd Croes draws, fel hyn.

Canu Corn i'r Cenau cu,
Cynnil fu hwn yr canu.

Ag mewn Sain fal hyn.

Canu i'm Gwaew gymmen gu

Ac mewn Cynghanedd Luſg, fel hyn.

Mae brâd cyfan am danad.

Y Gormodedd, { Canu, fu, bâl.

2. Gormod Odlau metyd nid amgen: pan fyddo un or Gorphwystae, yn unrhyw a'r Owdl bennaf: neu pan fo Geiriau yn y Wers o flaen y Brif Odl, yn atteb i'r Owdl neu 'n Unodli á hi fel hyn.

Gwae wr mawr yw guro *mae*,
A gwae fŷ 'n Cydodli a mae.

Neu fod mwy na phedair Odl mewn Englyn, oni bydd Englyn hir, a Mesur dau Englyn neu dri, neu ychwaneg arnaw. Pwy bynnag gan hynny a Gano gwpl o Englynion ar un Odl y bo y Llythrennau hyn. a. y. o yn fefyll yn ne Sillaf ynddo o'r blaen, y mae 'n rhoi ynddo ormod Odlau, ac yn Canu y Gerdd yn gam.

Neu yn ol eraill fel hyn.

Pan fyddo Pennill yn Odli ar Fogail gocheled roddi Bogail i fefyll yn lle Sillaf yn y Pennill hwnnw, rhag bod gormod Odlau neu Broft i'r Odl, ni fynn yr Odl ddim i gyd Odli nag i broftio a hi yn y Bann.

Cyfodli megys yn y ddau Bennill o'r tair Llythyren hyn, fef.

A: A brefych a phelych a Phâ. a. a. a.
O: O troi er trai drwy artro. o. o.

Gwybyddwch fod yn y Fraich gynta duir â yn un Odli a'r brif Opiwyfa. A dwy O yn Cydodli yn y fraich arall, a beius ydynt, fel gormod Odlau.

Proftio megys yn y Pennill hwn.

Rhodd *inni* yn rhwydd *yna*.

3. Proft ir Odl a fydd pan fo Cynghanedd groes neu draws, ai gorphwysta yn unrhyw ar Odl mewn Proft, ac yn un accen, ag yn yr un gyfrif o fillafau, fal.

Gwr ai bwnn ar gwrr ei ben,
Gwirion ydyw ag aren.

Neu tal hyn.

Oer ŵw dŷn mo'r arw i dôn.

Neu fal hyn y bydd gormod odlau mewn Paladr Englyn.

Aeth Llowdden Gapten ar garr,
Wr Boliog i'r Bala Yngharchar.

Y Gormodedd yw {ar / garr}

4. Gweſt Odl i gelwir am i bod yn dyfod yn rhy fynych, gweſtodli yw bod yr un Odl ddwywaith mewn Ynglyn heb i roddi deirgwaith, canys os teirgwaith y rhoddir yn yr Odl, neu hyd bedair gwaith nid gweſtodl yw, ond os dwywaith gweſt yw, Gweſt Odl i gelwir am fod yr unrhyw Odl yn tramynychu i'r Ynglyn megis gweſtai heb wawdd, ag a genir fal hyn.

Elſbeth Felenbleth fel Aur, (yw ei gwallt,
Ac yn gŵyr neu rudd-Aur,
Un yw bon yn dwyn hen-Aur,
Wen gannaid wych dangnwd Aur.

Neu hwnn.

Croeſo mwyneidd dro mewn Aur (a Sidan,)
Ail Siwdeth mewn treſſaur;
Croeſo Catrin mewn Crŷs Aur,
Lliw ewyn gorwyn ag Aur.

Y Gweſt yw bod Aur mewn dwy or Odlau i bob un o'r Pennillion heb gyfanſoddi neu gymmyſgu mo honynt a geiriau eraill.

Ond f' ellir canu 'n ddifai y Gweſtodl pan fo hi 'n dyfod o Naturiaeth yr Odl, fal hyn.

Angharad Lenad lewych,
'Nghôr Dŵw mae Angharad wych.
Twyll Cynghanedd ſydd o amryw ffyrdd.
Twyll Cynghanedd Sain ſydd fel hyn.
Parabl dyn trŵyadl o'n tref. Twyll

Twyll Cynghanedd fydd fal hyn.

Cowgiau a chreithiau 'r ſi êch wenn,
Ar dwyll yw (*ch*) yn atteb (*th*)
Croniadau 'n cnoi 'r un Wden.
Ar dwyll yw (*cnoi*) yn atteb (*cronn*).
Ae mewn Lluſg fal hyn.
Perais wyf truan arnaf.
Ar dwyll yw *arnaf* yn Odli a *thruan.*
Twyll Gynghanedd o gam oſodiad fel.
Gwydd Fewdlau wyd gwedd foldaur.
Ar dwyll yno yw *dl* yn lle *ld*,
Twyll o eiſiau Llythyren, fal hyn.
Perl Aur o gorph pur lew gwynn.
Ar dwyll yno yw eiſiau (*r*) i atteb *Aur.*
Twyll yn y Sain, fel hyn.
Mae dydd mewn digudd degwch.
Ar dwyll honno yw y ac *u* i ſeinio.
Twyll Cynghanedd o drwm ac Yſgafn mewn Sain fal hyn.
Mae pren i'r gwr llên gerllaw.
Ar dwyll yno yw [*prenn*] a [*Llèn*].
Twyll Gynghanedd Luſg fel hyn.
Bob dydd i mae 'n ymauddio.
Ar dwyll yw (*dydd.*) (*gudd*).

Y ſeiniau hyn ai cyffelyb ſydd mo'r anfeth a phe baid yn canu fel y canlyn.

Morgan a wnaeth gam ar gwr.
Neu.
Fe roddes ran ir Famaeth.
Twyll bengoll groes fal hyn.
Myn Duw ballt im dy hylldrem.
Twyll bengoll Luſg fal hyn.
Ni thai 'mhenn àm ddyn wennlas.

Nid oes dim yn yr Orphwyſfa yn atteb i'r Gydſain L yn niwedd y braich.

Twyll Gynghanedd Sain bengoll, fal.
Cynnydd y dydd y daethoſt, Neu.
Bob dydd y rhydd rhwyddgawr. Nid

Nid oes dim yn atteb i'r th yn y Pennill cyntaf or ddau uchod; na dim yn atteb ir G yn niwedd yr ail Pennill, ag am hynny y gelwir hwy n bengoll.

Nid rhydd canu Cynghanedd bengoll mewn lle 'n y Byd, eithr mewn Palaur Englyn rhag Angen neu golli Synwyr, ac yno mae 'n lwfiedig, fel hyn.

Oedran Jesu gu gyfion, o Brynwr,
Brenhin yr Juddewon,
Deunaw a phumcant union,
A Mil pan lâs Gwartheg Môn.

Nid oes un S. yn y Sain yn atteb ir S. fy 'n arwain i'r Britodl, ag am hynny yr arferir y Gynghanedd bengoll yn y Palaur rhag colli 'r Synwyr, ac yn waharddedig ym mhob lle arall.

6. Cam osodiad a genir fal hyn.

Y Tarw mawr o'r Mortmeriad.

Y Cam osodiad yn y Pennill o'r blaen a ddosperthir fal hyn, eisiau bod y gydsain R yn y Gair *Mortmeriad* rhwng y T ar M, ag yno y byddeu yn Gynghanedd gywir fal hyn.

Y Tarw Mawr or Tromeriaid, Neu,
Da Sdanlai Ipsans jawnlwyth.

Fe ddyleu fod y Gydsain T, yn ôl yr S. yn yr orphwysta *Ipstans*, yn dechreu 'r gair nesa fal hyn.

Stanlai Ipstans da jawn lwyth.

Ac yma mae 'r Pennill yn gywir heb ddim camosodiad ynddo.

7. Dybryd Sain neu anferth Sain a fydd pan fo 'r Orphwysta gynghaneddol yn Prostio ar Odl bennaf, a honno mewn Cynghanedd Sain, ac yn yr un Accen neu 'r un gytri o Sillafau fel hyn.

Yn Arglwydd arwydd iraidd, Neu.
Cywir yw'ch geiriau garwr.
Cywir ar y gwir yw 'r gwr.

8. Trwm

8. Trwm ac Yſgafn ynghyd nid amgen bod y naill Odl neu gynghanedd yn drom ar llall yn yſgafn, ſef Canu gair trwm i Sain, a gair Yſgafn i Sain ynghyd fal hyn mewn Prif Odl Ynglyn.

Cewch Farn Mathafarn *maeth bên cwch yno.*
A Chynnydd di Abſen?
Cewch Fir ſad cewch farrio Senn,
Cewch ryáid coch yr Wden.

Senn yw 'r gair trwm a [*bên,*] yw 'r Gair Yſgafn, ac nid allan na chyd Odli na chydſeinio yn ddifai.

Trwm ac Yſgafn mewn Cynghanedd Sain fal hyn, dan dorr gwr o'r côr y caid.

[*Torr*] yw 'r trwm, [*côr*] yw 'r Yſgafn, ac nid allan na chydodli na Chydſeinio eithr yn ſeius.

Trwm ac Yſgafn mewn Cynghanedd luſc a genir fal hyn.

I Wlâd Fôn nid eiſſ honno.

Môn yw 'r Yſgafn, *honno* yw 'r dromm.

9. Lleddf a Thalgron ynghyd nid amgen bod y naill owdl neu Gynghanedd yn Lleddf ar llall yn Dalgron fal hyn.

Ni thriniwyd Llew aelwyd Llŷr.
Natur Sion ond trwy Synwyr.

Llyr yw 'r gair Talgron, *Synwyr* yw 'r gair Lleddf, ni wnant hwy na chyd odli na Chydſeinio yn gywir.

Ac mewn Cynghanedd luſg fal hyn.

Yn Jal gwnai Ruffydd Sſiaelawr.

Ac mewn Cynghanedd ſain fal hyn.

Mewn (Twll) ond (tywll) hwynt hwy.

Lleddf a Thalgronn yw 'r geiriau uchod, yn y Sain am nad yw 'r (w.) yn y gair tywyll yn cael mo'i Sain megis yn y gair (*twyll*) yn cael cwbl o Sain yr (w:)

10. Crych a llyfn a ſydd pan ſo Cynghanedd

groſs

groes yn yr Orphwysta, a Chydfain o flaen R: yn tueddu tuag at Fogail yn yr Orphwysfa, ar Orphwysfa yn fillaf rannedig ac Yngobennydd y cló cyngan Y. fydd yn mynd yn Odl Oflodiad Cydfain o'r blaen yn llyfn ar Fogail, ac ar ôl y Fogail, R. a chydfain yn tertynu yn yr Odl, ac a genir fel i mae hwn yn y groes Cynghanedd.

Huw Conwy fry hy cawn farn.
Ac ar y Draws Gynghanedd fal,
Un ai dreib am roi jawn farn.

Ac mewn Cynghanedd Sain fal hyn.
Gwae fi draw gan fraw gwŷn fwrn.

11. Ymfathr Odlau nid amgen, pan fo rhan or Sillaf Orphwysfa Gynghaneddol yn Ymfathr ar Odl bennaf fel hyn.

Y Gwr o Gaerlleon gawr. Neu,
Cadarnai grwydr cedyrn gwydr.
Neu fal hyn yn y Cynghanedd Lufg,
A Chrwcc ar ei Freſt a Lleſtr.

Fo ddylai fod Bogail ar ol yr ſt ddiwaetha o flaen y Gydfain R.

Arwain y gair Lleſtr yn Lliaws Sillafog, ac yno bydde 'n ddifai, fal hyn.
A Chrwcc ar Freſt a Lleſtair.

12. Garllaes neu garnymoddiwes nid amgen pan fo 'r ddwy Odl bennaf yn yr accen ddiſgynnedig mewn lliaws o Sillafau fal hyn.

Dwrn a chlêdd dnedd dieingl,
Drws a dengwrs dros degeingl.

A Garllaes y gelwir am fod y ddwy Odl olaf i'r ddau bennill fyrrion yn lliaws Sillafog, ſef yn ddau neu dri Sillafog fal hyn.

Ar hyd maes yn llaes y lluſgir, uchod,
A dau Ychen gornbir;
Da ddigon y ddyger;
Buddoe lydain Elidir.

Ond mae yn y Pennill uchod fri arall heb law

w bod yn Arllaes, ſef bod y gair buddae yn echreu 'r braich olaf heb ddim yn atteb iddo.

13. Tîn Aâp; nid amgen pan ſo'r ddwy briſ Odl mewn Pennill o Gywydd yn yr un accen dyrchafedig neu yn un Sillafog ac yn rhanned- g fal hyn.

Nid Cariad hwyl irad arw,
Ar furſen hael frigwen hoyw.

Ac i mae yn y Pennill uchod dwyll Odl he- yd, o herwydd nad all Sillaf gydodli a Dip- on; (*arw,*) yw 'r Sillaf dawddleddf, a (*hoyw*) r ddipton bengamleddf, Neu fel hyn.

I roi fy mhwys ar fy mhen,
I rwyſo tir âf at wenn.

Neu fal hyn.

Gwâr ap oedd yn gyrru Lŵ,
Gwreigan gûl grêg yn galw.

Ac y mae yn hwn dri bai, nid amgen, Tin Aâp, Torr Meſur, a Thwyll Odl, ac mewn Yngiyn fal hyn.

Gwan iawn wyfo nwyf a naws, anhun,
Gwael am ddyn gwyl gweddaidd lun,
Gwenn agloyw a hoyw ei hun,
Gwynfyd gwyr y Byd yw Bun.

Ac wrth hynny i ochel y bai hwn, rhaid yw bod y naill Odl yn un Sillafog, ar llall yn lli- aws Sillafog, ſef yn ddwy neu ychwaneg.

14. Rhy debyg a tydd pan ſo 'r Orphwyſa Synghaneddol a'r Odl mewn accen ddiſgynnedig neu yn Lliaws Sillafog, ac mor debyg bob un w gilydd, ac na bydd onid un gydfain neu ddwy n y diwedd yn lleſtair ei gydodli yn gwbl fal hyn.

Ifan fy Nghariad Ifangc, Neu,
Rhyfedd oni ddaw Rhyfel. T. Aled.

Ac weithiau y bydd Rhy debyg mewn Syn- wyr drwy air a dau ddeall ynddo, un Moliant c un Gogan, canys mynych y cymmerir y gair 'r meddwl gwaethaf fal hyn.

Ac

Ac Achɔ 'i Thylwyth briſlwythi,
Ac Aehɔ'i Thâd gwɔch a thi,
Ac Achɔ 'r gwr cludwr clôd,
Ac Achɔ 'r Wraig dêg uchɔd.

15. Torr Meſur nid amgen pan ſo 'r Odl yn rhy hir pan ddyle ſod yn tyrrach, neu ganu yn un Sillafog neu 'n rhŷ tyrr pan ddyle 'r Gerdd ſod o liaws o Sillafau; neu ganu yn rhy hir, mewn Pennill deuair hirion or Gyhydedd gaeth, Wŷth Sillaf yr hyn ſydd or Gyhydedd draws fal hyn.

Daniel Sant Anwyl os aeth,
Doe fu ar ſil da Farfolaeth.

Neu fal hyn.

Gormod o bechod ai bwys ar f' Enaid,
'Rwyf finnau iw gynnwys;
Duw f' Arglwydd hilwydd hoywlwys,
Dy ddwylo dal rhag y dial dwys.

Ac mae yn y Braich diwaethaf, naw Sillaf, ſef y Gyhydedd droſcl.

Ac yn rhy fyrr lle dyleu ſod yn hwy fal hyn.

Gwâr ab oedd yn gyrru bŵ,
gwreigan gul grêg yn galw.

Nid yw (*galw*) ond un Sillaf, ac am hynny nid yw 'r braich ond ar y Cyhydedd lis, ſef o chwe Sillaf, ac felly mae yn dorr Meſur.

Gwŷdd ac Abſen ynghyd, a hyn o ddwy ffordd, ſef pan rodder dau amſer amrafael ynghyd yn yr Ymadrodd; megis.

Mi ganaf pei gwypwn i bwy, Yn lle,
Mi ganwn pei gwypwn i bwy.

Mi ganaf yw 'r amſer Preſennol ar modd cyndrychiol, yn lle 'r amſer dyfodiad.

Neu pan genir gwŷdd ac Abſen, ſef yn canu megis wrth y nêb y baid yn canu iddo y naill bennill i'r Cywydd, neu Englyn, neu pa ryw

Gerdd

Gerdd bynnag fyddo, ar Pennill arall neu 'r lleill i gyd; megis heb gyfwrdd ar ŵŷdl y neb y caned y lleill wrtho, megys er Siampl;

I'r wyd Wiliam ar Lalar,
A'r Corph yn Rowndwal i'r câr,
Ba ddelw na baet dda Wiliam,
A daed fu i dâd ai Fam.

Clôd a gogan Ynghyd nid amgen canu Moliant yn y naill ben i'r braich neu Gerdd, a duchan yn y llall fal hyn.

gwraig deg ddifiml anniwair,
Neu *Walches am Ferch Fonheddig,*
Drwg Yſtyr yw.

Canu yn amherthynas, megis Canu Moliant i'r ſawl ni's dylent, neu Foneddigeiddrwydd i'r Bilan neu i'r tauog, neu 'r peth ni chydweddo i'r neb y caner iddo, megis canmol Gwraig am Ymladd, a'r cyffelyb.

Cam amſer nid amgen, cymmeryd y naill amſer yn lle 'r llall fel hyn.

Y mae Neithior y foru,
A Mwnai 'n fraiſg mewn man fry.

Yn y Braich uchat o'r ddau lle mae 'n dywedyd i mae Neithior y foru, i mae 'n Siarad yn yr amſer preſennol, mal pe bae hi heddyw; yn yr Amſer ſy 'n dyfod fal hyn.

E' fydd Neithior y foru,
A mwnai 'n fraiſg mewn man fry.

Unig a Lluoſog ynghyd, megis rhoi gair unig i gydtynnu a Gair Lluoſog, fal hyn.

Ugeinwr yn lle Ugeinwyr,
Neu, *gwae Wŷr dewr a gurwyd oll,*
Yn lle Gwae Wŷr dewrion.

O herwydd nad yw dewr yn cydtynnu a gwyr, Oblegid nad yw ond y rhiſ unig, a Gwyr yn Rhif Lluoſog.

Bai yw mewn Cerdd Gynghaneddol, adael un Llythyren yn y naill Air, heb ei gynghaneddu yny llall.

Bellach

Bellach iawn yw gwybod pa weddy moler pob peth a ddylid ei Foli.

1. DUW a ddylid i Foli'n Drindawd, Tâd Mâb ac Yſpryd Glân, o Feddiant a Gallu a Haelder, a Doethineb a Thrugarowgrwydd. Gwarder a Thegwch a Gwrhydri, a Mawrſtryd a Gwrthiau, a Gogoniant; a phethau eraill Duwiol ac Anrhydeddus.

Dau Ryw o Ddynion ſydd, ſef Gwrŷw a Benyw.

Dau Ryw Wr ſydd, ſef, Yſgolhaig a Lleug, Dau ryw Yſgolhaig ſydd, ſef, Preladiaid, ac Yſgolheigion eraill, fel y mae Perſoniaid ac Athrawon, a Chrefyddwyr. Preladiaid a ddylaent eu Moli am Bennaduriaeth Eglwyſig, a Sancteiddrwydd a Glendid, a Thrugaredd a gwarder, a haelder ac Elusenau, a phethau eraill Yſprydol ac Eglwyſig.

Perſon a ddylid ei foli o bryd, a Gwêdd, a Haelder a Digritwch, a Bonedd ac Addſwynder, a phethau eraill cwrtais ac addſwyn.

Athraw a Folir o Gelfyddydau a Doethineb, a Chymmendawdy a Ffrwythlonder, Uchelder, Gwybodau a Chyfreithiau.

Crefyddwr y ſolir am ei Sancteiddrwydd, a Glendid Buchedd, a Hŷdd, a Chrefydd, a meddyliau a Geiriau a gweithredoedd Nefawl Yſprydawl.

Dau Ryw Leug ſydd, ſef, Arglwydd ac Uchelwr.

Arglwydd a Folir o Bennaduriaeth a Meddiant, a Mawrſtryd a Gwrhydri, a Chyfiawnder, a Haelder ac Addſwynder, a phethau eraill Arglwyddaidd.

Uchelwr a ſolir am Wrdaeth a Chynnal, a Milwriaeth, a phryd a thegwch, a haelder a dewredd, a Chymmendawd, Addſwynder, a Doethineb, a Chwrteiſrwydd, a phethau eraill Anrhydeddus.

Dwy

Dwy Genedlaeth o Wragedd ſydd, ſef.

Gwraig Dda a Rhein-Wraig, y rhai a Folir o bryd a Thegwch, a Diweirdeb, Gwrageiddrwydd a Chynimendawd, a Haelder a Doethineb a phethau eraill Gwreigaidd ac Anrhydeddus, Ac ni pherthyn Moli Gwraig dda o herwydd ſerch na Gordderchiad, ac ni pherthyn iddi Ordderchgerdd.

Rhiain a folir o bryd a Thegwch, a Diweirdeb a Morwyndawd, a haelder a lledneiſrwydd, a phethau eraill Rhieiniaidd, ac iddi y perthyn Serch a Chariad, ac yn yr un wedd y Molir Gwr Ieuaingc ammhriodol.

Statud Gruffudd *ab* Cynan, ſef.

Braint ar Wyr wrth Gerdd drwy Waith Tywyſſogion Cymru, a oeddent yn cynnal gwir Ddefodau y Brutaniaid.

GRuffudd ab Cynan Tywyſawg *Aberffraw*, a Bleddyn ab Cynfyn Tywyſog *Mathrafael*, wnaethont Fraint a threfn ar Wyr wrth Gerdd, nid amgen, rhag myned neb yn Wyr wrth Gerdd, namyn y rhai a ddylai fyned drwy Eiſteddfod, hono unwaith bob tair Blynedd, Yng Goruchel Lŷs y Tywyſog yn *Aberffraw* ym Môn; ac ym *Mathrafael* ym *Mhowys*. A nawdd a gorchymmyn, hyd nad elai neb yn Wyr wrth Gerdd, o'r dydd hwnnw allan, onid a elai drwy gennad yr Arglwydd, a thrwy Rôdd Cenattâd yr Athraw: ac i'r Athraw hwnnw atteb o hono yn Wr wrth Gerdd abl, erbyn Dydd Cyfreithiawl Goſodedig.

Ac hefyd, na bai i neb gynnal dwy Gelfyddyd, megis Prydyddiaeth, a chanu Telyn neu Grŵth, neu gynnal Crefft a' Chelfyddyd pa gynnag, oddieithr ei gelfyddyd ei hun.

Ac hefyd nawdd, na bei i Wyr wrth gerdd erchi

chi dros benn gwerth chweigien o ddim yn y Byd; megis Meirch, neu Ychain, neu Wiscoedd anrhydeddus; a hynny dan boen colli eu da wrth Gerdd hyd benn y tair blynedd, a'r rhodd yn Fforffet i'r Brenhin.

Ac yn ol Gruffydd ab Cynan, Tywyſawg Gwynedd, Bleddyn ab Cynfyn Tywyſog Powys, a gadarnhawdd Breiniau a Statutau Gwyr wrth Gerdd, ac a wnaeth rai eraill o newydd.

Tair Gwlêdd Ynys Brydain, ſef, Gwledd *Coſwallon*, Gwlêdd *Arthur* Frenhin *Yngbaerlleon ar Wyſc*, ar Wlêdd iſod.

A cnyda hynny, yr Arglwydd Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Tewdr Tywyſog Deheubarth, Talaith Ddineſwr, gwedi iddo orphen y Tŵr newydd yn *Aberteifi*, a anſones wahoddiad a gorchymmyn i bawb (a'r a geiſiau dda wrth Gerdd o Gymru a Lloegr, ac Iwerddon, ac o Scotland) ddyfod i'r Wlêdd fawr i Aberteifi dan Rybudd un dydd a Blwyddyn.

Ac yn y Gwleddoedd anrhydeddus hynny, y gwnaethpwyd ac y Cadarnhawyd Braint a Statutau Celtyddydau Gwyr wrth Gerdd, nid amgen, Prydyddiaeth, Teuluwriaeth, a Chlerwriaeth, a rhoddion i bawb wrth i Fraint o'r Cerddorion, gyda 'r Tywyſogion, ar bob un o'r tair Gwyl Arbennig.

Ac wedi Meirw o'r Tywyſogion, y cymmerth Gwyr Bonheddigion, (y rhai oeddynt o Waed y Tywyſogion) y Gwyr wrth Gerdd arnynt, ac i rhoeſont iddynt gylchwy yn ol pob un o'r tair Gwyl Arbennig, o fewn eu Talaith eu hun; ac unwaith bob tair Blynedd drwy y tair Talaith.

A chyda hynny hwy a roeſant iddynt Neithioriau Morwynion jeuaingc, ac yn ammod i'r Prydyddion gynnal Iaith y Brutaniaid, ai Hachoedd, a Gweithredoedd; ac i rhodded i'r Clerwyr geinieg

iog a Gofram o bob Aradr, a dimmau o bob hanner Aradr, a lle ni chae'nt Arian, dwyn gafael. Ac nad elei y Clerwr i dŷ yr Uchelwr, na'r Pencerdd i Dŷ y Gwreng: ac od elei, na chaffai onid Rhôdd y Clerwr. Ac ar y Clerwr yr oedd Ymfennu, a dyfalu, a dynwared, ac ymbil drwy Wradwydd, a hynny ar eulun Cerdd Dafawd. A'r Geiniog a roddyd iddo, er mwyn i fod yn arddel 'i hanfod, [megis chwynn] o Wyr wrth Gerdd: a Gofram a roddyd iddaw, er mwyn dirmygu y Cythraul a'i tynnawdd mewn diogi, a glythineb, a lleſgedd, ac ar y Teuluwr ir oedd tyſtunniaw, a digriſthau, a phrydu Cordderchgerdd, ac erfynniad da yn Deuluaidd, heb neb ryw Ymbil am danynt.

Ac os rhoi teſtun a wneid yn y Gwleddoedd hynny ar Wr wrth Gerdd, jawn oedd 'i rhoddi o beth ni bei wir, rhag cywilyddio y Gwr wrth Gerdd: a'r gwr a ddychenid, a gae i ddwy rôdd o herwydd 'i Fraint 'i hun.

Pencerdd Gwlad a geiff, gobreu Merched y Cerddorion, a faent ynddi. Ef a geiff gyfarwys Morwynion jeuaingc, pan wrhaont; nid amen, pedair ar hugain, ſef rhôdd.

Pann fynno y Brenhin wrandaw canu Cerdd, aned y Pencerdd ddau Ganu iddo, ynghynddy Neuadd; un o Dduw, ac arall o'r Brenhin. anys ef a ddyleu ddechreu Cerdd yn y Llŷs; a'r rdd Teulu a ddylu canu y trydydd Canu is nteod y Neuadd.

Pan fynno y Frenhines Gerdd o'i gwrandaw yr Yſtafell; caned y Bardd Teulu iddi dri anu o Gerdd Angau; trwy lef gymhedrawl, ag rhwyſtro yn y Neuadd. Y Tir a geiff yn ydd, ac ni cheiff ddim o Neithiorau Gwragdgwriaw g cyn na hynny, ſef gwrageod gweddon gwedi ail briodi, Sef yw Pencerdd, Bardd edi 'r ennillo Cadair. Ni ddichon Bardd er-

hi dim, hyd i bo yn 'i Swydd ef, heb gennad, oni bydd Bardd Gorwlâd. Cyd gwrafuner rhoddi dim i eirchiad yn y Wlâd, hyd ymhen Ysbaid o amſer, rhydd ſydd y Pencerdd.

Llyma 'r ſawl ſydd rydd iddynt Glera.

1. Gwr wrth Gerdd anafus megis gwr Dall, 2. Diſgybl Yſbâs, 3. Diſgybl Diſgyblaidd, 4. Diſgybl Penceirddiaidd. 5. Pencerdd.

Diſgybl Yſpâs Cerdd Datawd a ddylai wybod y Sillafau, a Phum Meſur ar Fnglyn; nid amgen, Unodl Union: Unodl Crwcca': Unodl Cyrch: Proeſt Cadwynog: Proeſt Cyfnewidiog, A Meſur ar Gywydd dau air hirion, a'i Canu yn awenyddgar ym marn Pencerdd a ddwedo ar ei gydwybod a ellir Prydydd o hono.

Diſgybl Diſgyblaidd a ddylae wybod deuddeg o Feſurau: ſef Pum Meſur Englyn: Pedwar Meſur Cywydd; ac Owdl, Toddaid, gwawdodyn byrr, a gwawdodyn hir, a gochel y Pymtheg bai Cyffredin, a dangos o'i waith ei hun bob un o'r deuddeg Meſur yn Ddiſgyblaidd.

Diſcybl Penceirddiaidd a ddylai wybod i holl Sillafau a Rheol yr Ymadroddion yn ol y Grammadeg, a Doſparth y Cynghaneddion, a gochel yr holl feiau; Canu 'n gydſain, neu 'n gyfochrawgerdd ar un ar hugain o'r Meſurau: Er na chano Gadwyn Fyrr na Thawddgyrch Cadwynog, neu ddigwydd un o'r Meſurau heb wybodſmaeth ef yn gydymmaith i Beneerdd.

Pencerdd a ddylai Wybod y cwbl, a Charu 'n gyfochr, yn gydſain, yn groesgynghanedd, at gymmeriadau yn deſtyngar, ar ddigrifwch yn ffrwythlon o Synwyr yn ddeunyddfawr, o gerddwriaeth yn warantedig, o Awdurdod yn awenyddol; o ddychymmyg fal y bo hawſaf ei ddyſgu, a dadgan y gerdd a ddifyrra ei gwrando neu ei Darllen a awŷa gallu dal Cŏf, ar Foliant Bonedddigion.

Cerd

Diſgybl Yſpâs lieb râdd, nid oes ar ei reol nac ar ei gelfyddyd ond Barn Pencerdd, a ellir gwr wrth gerdd o hono.

A rhaid iddo wybod deg Cwlwm a phum cwlwm o gydgerdd, ac wyth o ganiadau.

Diſgybl Diſgyblaidd a ddylae Wybod ugain o glymmau, a dwy golofn, a deg Cwlwm o gydgerdd, a dwy gadair, ac un ar bymtheg o ganiadau, a phedwar Meſur ar hugain ai Canu drwy reol.

Diſgybl Penceirddiaidd a ddylae wybod deg ar hugain o glymmau, a thair Colofn, a phymtheg o glymmau Cydgerdd, a thair Cadair, a phedwar ar Hugain o ganiadau, a'r Pedair goſteg a medru ei doſparthu, ac Adnabod a gwybod gwahan rhwng pob rhyw ai gilydd.

Pencerdd a ddylae wybod deugain cwlwm a phedair Colofn, ag ugain Cwlwm Cydgerdd, a phedair Cadair a 32 o ganiadau a Phedair goſteg, a gwybod ei Feſuran a'i Rheol, gwybod pedwar ar hugain o Ddifre, a doſparth y Meſur megis y mae yn y Llytr.

Doſparth yw dangos a medru gwneuthur Cerdd ei hunan yn ddifai ym marn Penceirddiaid, a medru ei holl Ddoſparthau a phob gwahan a rhagwahan, pob cynnwyſiad a gorphwyſiad, pob yſmudfa a'r dyniade a'r Cywir dannau cuddiedig ac anghuddiedig, ai dangos yn Warantedig o'i waith ei hun yn Benceirddiaid ac yn Athrawaidd, fal i bo Cydwybodus i Benceirddiaid Doethion farnu, ai dewiſo 'n Awdwr ac yn Athro ar y gelfyddyd.

Ni ddyle neb ddyſgu ond gan Athro Penceirddiaidd neu un a feder oſod yn jawn y peth a ddyſger gan Eraill.

Ac os Telyniwr a fydd, rhaid iddo wybod y pair Mwchwl godidog, yr hwn a Raddiwyd yn

ogyfuwch a'r pedair Coloſn, pob Coloſn o'r pedair a Raddiwyd yn ddeg cwiwm, pob un o'r tair Mwchwl newydd yn ogyfuwch o rådd a'r Pedair Cadair, ar pedair yn bum cwiwm bob un.

Gwedi hynny yr ordeiniwyd i'r Athrawon Penceirddiaidd gymryd Diſgyblion wrth Reoiaeth y gelfyddyd, nid amgen nag un ar unwaith mewn dogn o Brentiſiaeth, ac na bo ir Diſgybl wneuthur Diſgybl arall: ac ar bob Diſgybl y *Graw*ys iod gyda 'i Athro dan boen colli ei rådd, oni byddachos Cyfreithlon.

Hefyd na bo i neb Ddynwared na gwatwar ei Athro am ei feddwl ai Fyfyrdod.

Hefyd na wnel Diſgybl gerdd heb ei dangos iw Athro, a gwybod wrth Farn ei bod yn jawn, cyn ei Chanu allan.

Hefyd gorchymmyn i bawb na wnelont arferoedd rhodiad neu grwydrad.

Hefyd nad êl neb i Wyl na Mabiant o'r Tŷ y del gynta, tra parhao y Wlêdd yno heb gennad gwr y Ty, neu Wâdd gan arall, dan boen colli ei glera, ac od â o Dŷ i Dŷ rhaid i ddal tel gwibiawdr crwydrad, a dwyn ei glera ai roi wrth raid yr Eglwys, ac o Brwyſga yn y Wlêdd, fcolli ei rôdd ac os gwnâ anſyberwyd neu ſarſaeth am Wraig neu Forwyn lle'i delo, dwyn Ffin a Charchar a cholli ei glera dros faith mhlynedd.

Hefyd nad elo i Dafarnau neu gornelau cuddiedig i Chware Diſiau a Chardiau, neu chwarae arall am dda, ac os gwnan', pawb yn Swyddog arnynt, i ddwyn hynny a fo yn ei Pyrſau.

Hefyd na ddyſgont na Sennau na rhimmynnau gwradwyddus, na gwatwor na dynwared, cablu, ysbio a dychymmyg Celwydd, neu ei ddwedyd yn ol arall dan boen Ffin a Charchar.

Hefyd na wnelont gynnen, ffrae, twyll neu ledrad, murn neu gynilwyn, nag ymgarlyn a Lladron, na neb a wnel Anllywodraeth, dan boen

Ffin

Ffin a Charchar: Canys gwyr wrth Gerdd a ddylant ddwyn Ymadroddion hawddgar, heddychlon, Caredig, Utydd Wasnaethgar i bawb o gywiriad y Brenhin a'i Swyddogion iw gadarnhau a'i swccrio.

Hetyd Mis ymlaen pob gwyl ymofyn ai Hathro i wybod pa le'r el rhag mynd gormod i'r unlle, ac nad el ond un at Wr a Deg Punt o Fywyd; Dau at Wr o Ugain Punt, ac wrth y Rådd honno at Wr a fo uwch o Rent.

Rhodd Disgybl Disgyblaidd am Gywydd, tri Swllt a Grôt.

Rhodd Disgybl Penceirddiaidd am Gywydd, 6 Swllt a naw Ceiniog.

Ac i Athro 'chwaneg o Syberwyd neu ryw Elw.

Disgybl Yspas graddol, Deuddeg Ceiniog ar bob un o'r tair gwyl arbennig.

Disgybl Disgyblaidd chwe Cheiniog ar hugain bob un o'r tair Gwyl Arbennig, y Pasc, Nadolig a Sulgwyn. A phob Neithior Freiniol, a Neithior arall a chwrs clera, saith geiniog.

Rhodd Disgybl Penceirddiaidd bob un o'r tair gwyl Arbennig, 3 s. 4 d. a phob Neithier Reiol, a Neithior arall. a chwrs clera, bob tair blynedd deuddeg Ceiniog.

Rhôdd Pencerdd swy syberwyd na Disgybl.

Disgybl Yspâs graddol oni ddyig mewn tair Blynedd, colli ei Rådd.

Disgybl Disgyblaidd oni ddysg yn y tair Blynedd, colli ei Rådd Ddisgyblaidd.

Disgybl Penceirddiaid oni ddysg tod yn Bencerdd mewn tair Blynedd, colli ei Radd a syrthio i rådd Ddisgyblaidd.

Rhywiau Cerddorion.

Wyth Ryw Gerddawr sydd, nid amgen, Pedwar Cerddawr Graddol, sef, Prydydd neu Fardd Caw, a hwnnw o dri rhyw, sef. Telynior, Crythawr.

Datceiniad, Prifardd, Postardd, Arwyddfardd, Pwy bynnag a ddywetto 'i fod yn Arwyddfardd, gwybydded Achoedd Brenhinoedd a Thywyſſogion, a chyfarwyddyd oddiwrth y tri Prif fardd Ynys Brydain, nid amgen, Myrddin ab Morfryn, a *Myrddin Emrys*, a *Thalieſin Ben Beirdd*, Ac yngHeſtyddyd Arwydd Fardd oniaeth, o ran gwybod yn berffaith wir Achoedd, ac Arwyddion a Theilyngdawd, ac odidogion weithredoedd Pendefigion, a Boneddigion Cymru.

Ac o'r rhai uchod, hwnnw a elwir yn Gadeirfardd, a fo yn dwyn y Gadair Aur neu Arian ar ei Yſgwydd, i ddangos i fod yn Athro Cadeiriog.

Pedwar Ofergerddawr, nid amgen, Pibydd, Hudawl, Tabret, Ffidler, ſef Cerddawr gwâth trithant.

A Rhôdd pob un o'r pedwar hynn, ſef yr Ofergerddorion yw Ceiniawg, a Chanu o e' ſefyll.

Yn amſer Brenhin Penbeirdd a'i Hendeidiau, yn yr amſer yr oedd *Cadwaladr* yn Frenhin, ac yn Bennadur ar holl Dalaith y Teyrnaſoedd; yna hwy a aethant i eiſtedd, ac i farnu ar bob rhyw beth, a'r a gymrei Prydyddion y Dalaith yn llaw; nid amgen, ar geingciau Telyn a'i Chanjadau. Ac yno y daeth un gwr ger eu bronn i ganu Hgyweir ar y Bragad Dannas, yr honn Hſgyweir a fu ſeml a drwg ganthynt ei chlywed, o achos 'i bod yn dyſod o lais Pibeu Morlydd. Ac yna y gorchmynnaſont iddo dan fawrboen, (pa bryd bynnac y deler gerbron gwyr dyſcedig,) ganu o hono Mwyneu *Gwyneâd*; yr hon a ddaroedd i Frenhin Penbeirdd ac i *Gydwaladr* Frenhin yn gyntaf ei rhoddi allan yn eu hamſer hwy, au Cydgyngherion: ac na bei i neb ganu mewn jawn gynghanedd, ond gyda Mwynen, o achos 'i bod yn dyſod o'r Cyweirdanneu, a'r llall o'r Cymyſciaid. A hyn a Dyſtiolaetha Canad

ad Cefyliwr, a Chaniad o fawr Wyrthiau, a Chaniad Ieuan ab gôf, a Chaniad Anrhec Dewi, a Chaniad *Cyewgi*, a Chaniad *Einion* Delyniwr, a'r Caniad Crych ar y Carfi, heb law llawer o ganiadau eraill, ar rhai'n a ellir eu henwi ac Ymarfer o honynt, pan y mynner.

Swydd Datceiniaid.

Ac yn gyntaf, et a ddyly Datceiniad wybod cyweiriaw 'r telyn neu grŵth, a chanu amcan o Brofiadau, drwy Blethiadau 'n Warantedig: A dwy Oſteg a Chlwm a Chaniad; a'i dair ar ddeg o Brif geingciau a'i Ceſſailweiſion; a'i dri phrif Accen ar ddêg, a chanu gyda hwy ag amcan o Geingciau a Phurorïaeth; a'i bedwar Meſur ar hugain Cerdd Dant, a'i Doſparth yn jawn.

Hefyd, et a ddylu ſedru Darllen Cymraeg yn Berffaith, a'i Yſcrifennu yn gyflawn; ac a ddylu wybod ei bedwar Meſur ar hugain Cerdd Dafawd a'i Doſparth, ai Cynghaneddau; ac a ddylae wybod Canu o hono 'i hun Englyn Unodl union, ac Englyn Proſt, a Chywydd deuair hirion; a medru goſiod yn jawn bob Hengerdd o'r a gâffo yn ganum gan arall.

Hefyd, et a ddylae wybod, a medru gwaſanaethu oddiwrth y Gegin i Fort Gwr o Urddas ac Anrhydedd; a thorri pob rhyw Aderyn a'r a ddelo ger 'i Fronn. A'i Swydd oedd mewn Priodas Frenhinawl, waſanaethu i Fort y Ferch. A Chôd wenn a ddylu bod ynghylch ei Grŵth neu ei Delyn, a fo et yn ei dwyn.

Datceiniad Pen Paſtwn a'i Swydd.

Datceiniad Penn Paſtwn, a elwir yr un a fo yn datcanu heb ſedru ddim canu Tant 'i hunan; a hwnnw a ddylae ſefyll ynghanol y Neuadd, a thuro a'i ffonn, a Chanu 'i Gywydd neu 'i Owdl gyda'r Dyrnodiau. Ac os bydd Gwr wrth Gerdd Tant lle y delo, ni ddylau y Datceiniaid hwnnw gynnyg na medduio cymryd arno Ganu na

Chywydd

Chywydd neu Owdl, heb ddeisyf Cennad i Gwr wrth Gerdd Tant i Ganu, Ac hefyd, ele ddylu bod megis Gwâs i'r gwr wrth Gerdd Tant, ac i Brydydd ymhob lle ac y delo.

Neithior Frenhinawl, a fydd pan brioder un o Waed y Tywysawg. Ac un Dydd a Biwy ddyn o Rybudd a fydd i Wyr wrth Gerdd baratoi i ddyfod yno, ac yn honno, y gwneir Cŷff Clêr, a hwnnw fydd Bencerdd o'r gorau, ac yno y rhoir Teitlyn di-rif diwladaidd a'r Pencerdd i'r Prydyddion eraill i ganu iddo ef i lawenhau 'r Orfedd. A'r Prydyddion hynny a ddônt a'i Cerdd iddo ef, ac a'i canant ar Offeg. A thrannoeth y daw yntau a'i atteb iddynt hwythau, a dyblu eu rhoddion a gant hwythau yno. A hyn oll a Notaent ei wneuthur wedi Ciniaw, er mwyn diddanwch i'r Gynnulleidfa. A'r Pencerdd yntau neu yr Attebwr, a eisteddei mewn Cadair, a'r Ymholwyr hwyntau a fydden yn sefyll. Ac yn y cyfrwng hynn, y byddei raid ir Pencerdd dewi fon; gan oddef i bawb o honynt mewn Cerdd, ddywedyd yn ei erbyn beth bynnag a faeddai ganthynt. A' thrannoeth (megys y dwedais o'r blaen) y byddei raid iddo yntau atteb mewn Cerdd, yn deitlyngar i Deitlyn y Cŷff Clêr, ac iddynt hwythau.

Gwahoddiad Awdurdodawl i Eisteddfod.

BID Yspys i bawb o Foneddigion a Chyffredin, fod Eisteddfod ar Wyr wrth Gerdd Dafod a Thant, o fewn Tref *Gaerwys* yn Sir y *Fflint*, yr Ail Dydd o Fis Gorphenhaf, 1523, ar bymthegfed Flwyddyn o Deyrnasiad *Harri* yr Wythfed, Brenhin *Lloegr*; drwy Gomissiwn yr Enwedig Frenhin. Garbron *Richard* o *Hywel* ap *Efan Vaughan* Esq; O Gyttundeb Sr. *William Griffith* a Sr. *Roger Salbri*, a thrwy Gynghor

y *Gruffydd* ap *Efan* ap *Llywelyn Vaughan*, a *Theodor Aled*, Bardd Cadeiriawg, a llawer o Foneddigion a Doethion eraill, er gwneuthur Order a Llywodraeth ar Wyr wrth gerdd Tafod a Thant, ac ar eu Celfyddyd.

Hanes yr ail Eisteddfod fawr YngHaerwys *yn Sir y Fflint a Gynhaliwyd y* 26 *Dydd o Fis* Mai, *yn y Flwyddyn o Oedran Christ* 1565 *ar Nawfed o Deyrnasiady Frenhines* Elizabeth, &c.

Gerbron.

ELLIS *Prys* Dr. or *Gyfraith* ac un o gynghoriaid Ardaloedd *Cymru.*

William Mostyn, Pirs Mostyn.

Owen ap *John* ap *Howel Vaughan* o *Gaergai* Hendaid *Rowland Vaughan* y Cyneithydd.

Sion ap *William* ap *Sion* o *Tsceifiog.*

Sion Lewis Owen o *Ddolgelley.*

Morus Gruffudd, Simon Thelwal o *Blas y Ward.*

Sion Gruffydd Serfiant, Robert Pilstwn.

Sr. *John Lloyd* o *Jâl*, ac *William Gruffydd Esgwieriaid.*

Ac yn yr Eisteddfod honno y Graddiwyd Prydyddion.

William Llŷn, Owen Evan *alias Gwynedd*, A Simwnt Vaughan. } 3 *Yn Benceirddiaid Cerdd Dafod.*

William Cynwal; Lewys Menai, Sion Tudur, Huw Llyn, Bedo Hafelp, Sion Phylip, a Huw Conwy. } 7 *Yn Ddisgyblion Penceirddiaidd Cerdd Dafod.*

Jeuan Tew, Huw Pennant, a Howel Ceiriog. } 3 *Disgyblion Disgyblaidd Cerdd Dafod.*

Dafydd Alaw, Edward Brwynllys, Rhys Celli, } *Yn Ddisgyblion Spâs Cerdd Dafod.*

Te-

Telynorion.

Sion ap Rhys, William Penllyn, ac Hwlcyn Lloyd. — *Yn Benceirdiaid ac Athrawon Cerdd Dant.*

Thomas Anwyl, Dafydd Llwyd, Edward ap Evan, Robert ap Howel *Llanfor*, ac Humphrey Gôch. — *Yn Benceirdiaid Cerdd Dant.*

Richard Glyn, Robert Lloyd, Etan Penllyn, Lewys Llanfor. — *Yn Ddiſgyblion Penceirdiaid Cerdd Dant.*

Huw Dai, Huw ap Morus, Siamas Morlas, Sion Niwbwrch Ac Ellis Gruffydd. — *Yn Ddiſgyblion Diſgyblaidd Cerdd Dant.*

Lewys Berain, Jeuan Meredydd, a Gwalchmai *ap* Dafydd. — *Diſgyblion ſpâs Cerdd dant.*

Crythorion.

Siamas Eytyn, Evan Penmôn, Robert ap Rhys Guttun, Thô: Môn. — *Yn Benceirddiaid ac Athrawon Cerdd dant.*

Thomas Grythor, Sion Ddu Grythor. — *Yn Ddiſgyblion Penceirddiaidd Cerdd Dant.*

Robert ap Evan Lloyd, Edward Grythor, Tho: Cegidfa, Rhys Grythor hiraethog, Tho: Grythor Côch, Dafydd ap Howel Grythor, ac William Ednyfed. — *Yn Ddiſgyblion Diſgyblaidd Cerdd Dant.*

Richard Conwy, Sion Alaw, Robert Conwy, Crythor Lloyd, — *Diſgyblion ſpâs Cerdd Dant.*

Statud Gruffydd *ab* Cynan *ynghylch cadw Eiſteddfod, a Threfn ac Ordinhadau Prydyddion Cerdd Dafod, au Perthynaſau, &c.*

PAn Ymgydgyfarfyddo 'r gynnulleidfa yng-hyd, yn ol Rhybudd neu Wyſiad Rhagflaen-

ol,

ſ iryw Dref Arbennig neu Bentref, y mae'nt wy 'n gyntaf i ddewis Deuddeg o Wyr de- llus yn yr Jaith *Gymraeg*, ac nid yn hynny, n Unig, eithr hefyd mewn Prydyddiaeth, a Barddoniaeth, ac Arwydd fârddoniaeth, os bydd cyfryw iw cael yn Farnwyr, y rhai hynny ſy roddi Teſtun i'r Beirdd i Ganu arno, naill i mewn Englynion Unodl union, Cywydd, neu yw un o'r pedwar Meſur ar hugain, ac nid ewn Dyri, Carol, neu ryw wael Gerddi, y hai na fu wiw gan y Prif Feirdd gynt gym- naint a'i crybwyll, o herwydd nad oes Rheol- u perthynaſol iddynt. Ar Barnwyr ſydd i Or- chymmyn iddynt na Chanont Dduchan na Go- angerdd y naill i'r llall; a rhoddi iddynt amſer Cymmheſur i wneuthur bob un o honynt ei Englyn neu Gywydd, neu 'r peth a welent hwy n gymmwys. Y Cweſt hyn ſydd i dderbyn Henwau Cynniferac a fyddo yn breſennol, o'r Beirdd ar feder Canu, fel y gallont eu galw bob un wrth ei Enw mewn Treſn i'r Gadair, ddatcan eu Cerdd; a Chynnifer o'r Beirdd gollo 'r Gadair, ſydd i addef hynny, mewn apur, ai Draddodi i'r Prifardd, neu 'r hwn a Ynnillo 'r Gadair, ar Beirdd hynny a gollo, ſydd i Yfed Iechyd y Prifardd; ac i roddi bob un o honynt Chwecheiniog yn yr Odart i'r Prif Fardd.

A hwnnw y fydd Pennadur arnynt, onl bydd iddynt hwythau ynnill mewn Eiſteddfodau er- aill.

Cywydd Gorcheſtol i Ferch ar Groes Gynghan- edd rywiog iw Ganu Wyneb Tngwrthwyneb.

CUR y ſy fawr, Cerais Ferch,
Cryd oerfawr, Cariad Eurferch.
Canwyll weh, Cain yw ei lliw,

Cnaw-

Cnawd olwen, Canaid eiliw,
Clywed yn fwyn, coelied fi,
Cain addwyn, canu iddi,
Cur i mi, caru E'm wenn,
Cwynais Oeri, cain Seren,
Cnawd Anna, canaid waneg,
Croyw wiwriw da, Côr eiriw dêg,
Cain Feinael, cû jawn fwythjaith,
Cangen hael, cyngan ei Hiaith,
Cnwd wiwrâs, cain i dwyrudd,
Cwarel o Ras, cwrel Rudd,
Canaid Grŷs-Aur, Cnawd Grifial,
Calch a Thŵ Aur, cylch ei thâl,
Croyw bur gwiwrydd, Crwybur goralit,
Cwyr ar y Gwŷdd, eyrau 'r Gwallt,
Cau hyd yr jâd, ceidw ei rann,
Cyd ofodiad, caed Sidan,
Coron or Haul, cwyr yn rhŷdd,
Coed Araul, caead Irwŷdd,
Cawn gylarch, cwyn a gyfyd,
Croyw Râs Barch, creirias Byd,
Canwyll gu, cain oll ei gwêdd,
Cywlaid Ganu, clôd *Gwynedd*,
Cwyn fêlair, cynnes wiwlŷn,
Curiaw a bair, caru Bûn,
Clit wiwloer, Cyfa wylwyf,
Cwyntan oer, cynnefin wyf,
Croyw yn cau, cur yn y eîg,
Clô im Oefau, cwlm Yffig,
Crwydr y Nôs, crûd a wnaeth,
Câf ei haros, côf hiraeth,
Cul wanhau, Calon a hyllt,
Ceit Aefau, caru effyllt,
Cynnyddais, cain wiw ertun,
Crûd im ais, Gariad y Mun,
Câf ennyd, cyfa Annedd,
Cûr yw 'Mŷd, cau ar y Mêdd.

William Cynwal a'i Cant.

I Diweddglo.

Enffych well gymmell ac ammod etto,
Heb Attal ar Draethod;
Hŷ Enwog lawn hyn o Glôd,
lenwir i chwi yn hynod.

mmadeg breudeg i Brydydd, gwiwlan,
welwch oll ei ddeunydd;
lair i Ganu gwir gynnydd,
Gu lawn Sail Goleuni fydd.

wned Beirdd rai heirdd eu hurddas Dynion,
Da Anwyl Cymdeithas;
Dyna Eiddo dawn Addas,
Dyner Jaith a'i dwyn i Ras.

lgliad cynnulliad cawn allu, cywraint,
Cywir-waith trwy *Gymru*,
Cynnyddiad accw i Naddu,
Cwyraidd jawn Gainge Cerdd yn gu.

ffor ar dymmor di ammarch Cofreftr,
Cyfrwyfdeg pob Alarch,
Cell gofiwn call i gyfarch,
Credo 'r Beirdd Cariad wîr Barch.

on o ddyfnion y ddaeth hoff Enwog,
A Flynnon Gwybodaeth;
Ac yno ffrŵd Ganu ffraeth,
Aber ddeunydd Barddoniaeth.

ynnefach Bellach heb ballu (Canwyll,
Cynnyg fynd i *Gymru*;
Cerdd yno y *Cymro* cu,
Cei fwynian accw i fynu.

J. K.

DIWEDD.

Thomas Jones
His Book
Anno 1720

Thomas Jones
His Hand 1720

Me suis Reddidit.

Sum Robert Vaughan